Mae'r Polisiâu Cynllunio a restrir yn yr adroddiad yn darparu tybiaeth o blaid datblygiadau ynni adnewyddol yn amodol ar ystyriaethau manwl. Mae'r twrbin hwn sydd yn un 15KW yn cael ei gyfrif fel datblygiad meicro sydd i bob pwrpas yn gwasanaethu'r uned fferm. O ran ystyriaethau manwl yn benodol yr effaith ar y tirwedd ac amwynderau preswyl mae'r cynnig yn cael ei ystyried yn dderbyniol.

## 8. Argymhelliad

Bod **caniatâd** cynllunio'n cael ei roi gyda'r amodau a ganlyn:

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: Er mwyn cydymffurfio gyda gofynion Adran 91(1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Mae caniatâd cynllunio am gyfnod na fydd yn fwy na'r 25 mlynedd ("y cyfnod 25 mlynedd") o'r dyddiad y caiff y datblygiad ei gysylltu gyntaf i'r grid trydan ("y grid"). Rhaid rhoi rhybudd o ddyddiadau (a) cysylltu am y tro cyntaf i'r grid a (b) gweithrediad llawn y tyrbin yn ysgrifenedig i'r awdurdod cynllunio lleol o fewn 28 diwrnod i'r ddau beth hyn ddigwydd.**

Rheswm: Fel y gall yr Awdurdod Cynllunio Lleol adolygu'r sefyllfa yng ngoleuni'r amgylchiadau fydd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod.

**(03) Ni chaniateir i'r tyrbin a ganiateir yma fod yn fwy na:**

15.2 medr	Uchafswm uchder llafn* (*i ben fertigol uchaf llafn fydd yn sownd)
10.7 medr	Uchafswm uchder hwb
9 medr	Uchafswm diamedr rotor
15 kw	Uchafswm graddfa

Ni chaniateir gosod unrhyw dyrbin gwynt ar y safle hyd nes y bydd manylion am y gwneuthuriad, model, dyluniad, maint, lleoliad transformer, graddfa bŵer, lefelau sŵn, gorffeniad a lliw allanol y tyrbinau arfaethedig wedi eu cyflwyno yn ysgrifenedig ac wedi derbyn caniatâd ysgrifenedig yr awdurdod cynllunio lleol. Rhaid i lfnau'r tyrbîn droi i'r un cyfeiriad. Rhaid i'r datblygiad gael ei weithredu wedi hynny yn hollol unol â'r manylion fydd wedi'u cymeradwyo.

Rheswm: Er mwyn diffinio sgôp y caniatâd hwn o ystyried effaith y datblygiad fel y'i haseswyd.

**(04) Ar ddiwedd y cyfnod 25 mlynedd, rhaid dadgomisiynu'r tyrbîn a rhaid i'r holl strwythurau perthynol sydd uwchben y ddaear gael eu symud oddi ar y safle. Ddeuddeng mis cyn dadgomisiynu'r tyrbîn, rhaid cyflwyno cynllun ysgrifenedig ar gyfer ailadrodd y safle ("y cynllun dadgomisiynu" ) i'r awdurdod cynllunio lleol am ei ganiatâd ysgrifenedig. Rhaid i'r cynllun dadgomisiynu wneud darpariaeth i symud y tyrbîn gwynt a'u hoffer ategol cysylltiol i ddyfnder o 1m o leiaf o dan y ddaear. Rhaid i'r holl waith dadgomisiynu ac adfer cael ei wneud yn hollol unol â'r cynllun dadgomisiynu fydd wedi'i gymeradwyo ac yn unol â'r amserlen ynddo.**

Rheswm: Er mwyn sicrhau edrychiad boddhaol ar ddiwedd y datblygiad.

**(05) Os bydd y tyrbîn gwynt a ganiateir yma yn methu cynhyrchu trydan i'w gyflenwi i'r grid am gyfnod parhaol o 12 mis rhaid i'r tyrbîn gwynt a'i offer ategol cysylltiol gael ei symud i ffwrdd i ddyfnder o 1m o leiaf o dan y ddaear a'i symud oddi ar y safle gyda'r tir yn cael ei ailosod o fewn cyfnod 6 mis o ddiwedd y cyfnod hwnnw o 12 mis yn unol â chynllun ("y cynllun symud") fydd wedi'i gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol ac wedi derbyn ei ganiatâd ysgrifenedig cyn dechrau'r datblygiad. Rhaid i'r datblygwr ddarparu data gweithredol ysgrifenedig ar gyfer tyrbinau unigol i'r awdurdod cynllunio lleol pan wneir cais ysgrifenedig rhesymol.**

Rheswm: Er budd mwynderau'r ardal.

**(06) O fewn 12 mis i'r "comisiynu" ac ar gais ysgrifenedig yr awdurdod cynllunio lleol, yn cynnwys unrhyw gyfnodau amser a osodir yn y cais; rhaid cyflwyno cynllun ysgrifenedig i liniaru unrhyw achosion o fflachiadau cysgodion yn unrhyw eiddo a effeithir yn cynnwys amserlen ("y cynllun lliniaru") i'r awdurdod cynllunio lleol a derbyn ei ganiatâd ysgrifenedig. Rhaid i weithrediad y datblygiad ganlyn ymlaen wedi hynny yn hollol unol â'r "cynllun lliniaru".**

Rheswm: I ddiogelu mwynderau deiliaid yr eiddo cyfagos.

**(07) Rhaid i'r holl geblau mewn cysylltiad â'r datblygiad a ganiateir trwy hyn fod wedi'u gosod o dan y ddaear (oni bai cymeradwywyd yn ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol).**

Rheswm: Er lles mwynderau.

**(08) Ni chaniateir dechrau'r datblygiad hyd nes y bo'r canlynol wedi'u cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol ac wedi derbyn ei ganiatâd ysgrifenedig.**

- 1) Y dyddiad y bydd y gwaith adeiladu'n dechrau ac yn dod i ben.
- 2) Hyd ymestyn mwyaf unrhyw offer adeiladu
- 3) Hydred a lledred pob tyrbîn.

Rhaid gwneud y datblygiad wedi hynny yn hollol unol â'r manylion a gymeradwywyd o dan ddarpariaethau'r amod hwn.

Rheswm: Er mwyn sicrhau bod awyrennau militaraid yn osgoi'r ardal ac yn osgoi'r perygl o wrthdrawiad.

**(09) Ni chaniateir gosod unrhyw dyrbin gwynt ar y safle hyd nes y bydd cadarnhad o'r canlynol wedi'u cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol ac wedi derbyn ei ganiatâd ysgrifenedig:**

**1) Dim ond person cymwys gaiff osod y tyrbin a hynny'n unol â chyfarwyddyd y gwneuthurwyr a'r arolwg wnaed o'r safle.**

**2) Rhaid cynnal a chadw'r tyrbin yn unol ag argymhellion y gwneuthurwyr.**

**3) Ni fydd y swm o'r tyrbin yn uwch na 40dB(A) uwchlaw lefel cefndir L90 3.5m o ffasâd unrhyw eiddo cyfagos y mae rhywun yn byw ynddo ac sydd ddim ym mherchenogaeth yr ymgeisydd. Lle mae rhan agosaf unrhyw eiddo cyfagos uwchlaw lefel y ddaear, bydd y lleoliad monitro 1m o'r ffasâd a bydd yr addasiad ffasâd o**

**-3dB(A) yn cael ei ddefnyddio.**

**4) Ni chaniateir i'r tyrbin gwynt fod yn rhai tonaidd o ran cymeriad.**

**(10) Rhaid i'r datblygiad fynd yn ei flaen wedi hynny yn hollol unol â'r manylion fydd wedi'u cymeradwyo.**

Rheswm: Er lles mwynderau deiliaid yr eiddo cyfagos.

**(11) Rhaid lleoli'r datblygiad a ganiateir yma yn unol â'r cynllun lleoliad (1:500) SH 238332E 379945N**

Rheswm : I osgoi unrhyw amheuaeth ac i sicrhau ffurf foddhaol o ddatblygiad.

## **Hysbysiadau Cyngori**

Cyngorir yr ymgeisydd i gysylltu â Colin Edwards (Prif Beiriannydd) ar 01248 752350 i drafod y gofynion arolwg o gyflwr y rhwydwaith priffyrdd cyn cychwyn ar unrhyw ddatblygiad ar y safle. Bydd yr arolwg yn ddefnyddiol ar gyfer pob parti i ddarparu cofnod o gyflwr y briffordd gyhoeddus cyn cwblhau'r datblygiad.

### **9. Polisiau Perthnsaol Eraill**

#### **Cynllun Fframwaith Gwynedd**

FF11 (Traffig)

#### **Cynllun Lleol Ynys Môn**

1 (Polisi Cyffredinol)

#### **Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd**

GP1 (Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu)

EN4 (Bioamrywiaeth)

Nodyn Cyngor Technegol 5 Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009)

Nodyn Cyngor Technegol 11 Sŵn (1997)

### **9. Polisiau Perthnasol Eraill**

#### **Cynllun Fframwaith Gwynedd**

FF11 (Traffig)



**Cynllun Lleol Ynys Môn**

1 (Polisi Cyffredinol)

35 (Diogelu Natur)

**Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd**

GP1 (Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu)

EN4 (Bioamrywiaeth)

Nodyn Cyngor Technegol 5 Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009)

Nodyn Cyngor Technegol 11 Sŵn (1997)

Rhif y Cais: 19C1103 Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Mrs Joanne Brown  
c/o Mr Harry Jones  
Gofal a Thrwsio Môn  
33-35 Y Stryd Fawr  
Llangefni  
Ynys Môn  
LL77 7NA**

Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn

Full application for alterations and extension at

17, Maes Cyttir, Holyhead, LL65 2TH



**Pwyllgor Cynllunio: 07/11/2012**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (AMG)**

**Argymhelliad:**

Caniatáu

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae'r safle yn mherchnogaeth y Cyngor.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae'r annedd wedi ei leoli ar stad Tan yr Efail yng Nghaergybi. Ty canol teras yw'r eiddo.

Y bwriad yw addasu ac ehangu'r annedd.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Materion allweddol y cais yw dyluniad y datblygiad arfaethiedig ac effaith y cynnig ar ddeiliad eiddo cyfagos.

**3. Prif Bolisiau**

**Cynllun Lleol Ynys Môn**

Polisi 1 – Cyffredinol

Polisi 42 – Dylunio

Polisi 58 – Estyniadau

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

Polisi D4 – Lleoliad, Safle a Dyluniad

Polisi D29 – Safonau Dylunio

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

Polisi GP1 – Canllawiau Rheoli Datblygu

Polisi GP2 – Dylunio

**Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 4, Chwefror 2011**

**Nodyn Cyngor Technegol 12:** Dylunio

**Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol Cyfarwyddyd Dylunio ar gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig 2008**

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoedduswydd**

Aelod Lleol – Dim ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Cyngor Tref – Dim gwrthwynebiad.

Dwr Cymru – Sylwadau.

Adran Eiddo – Dim ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Draenio – Sylwadau.

Ymgynghori Cyhoeddus – Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cynnig mewn dwy ffordd; lleoli rhybudd safle ger y safle ac anfonwyd llythyrau personol i berchnogion / deiliaid eiddo cyfagos yn y cyffuniau. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau yw'r 8 Tachwedd 2012. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn nid oedd unrhyw sylwadau wedi cael eu derbyn yn yr adran.

## 5. Hanes Cynllunio Perthnasol

Dim

## 6. Prif Ystyriaethau Cynllunio

**Dyluniad** – Mae'r cynnig yn golygu codi estyniad un llawr gyda to fflat yng nghefn yr eiddo i ddarparu llety ychwanegol ar y llawr isaf. Cydnabyddir bod Polisi 58 o'r Cynllun Lleol Ynys Môn yn ffafrio to crib llechi yn hytrach na tho fflat. Fodd bynnag, nid yw'r polisi'n dweud y bydd cynigion gyda thoeau fflat yn cael eu gwrthod. Nid ydym yn credu y bydd y cynnig yn cael effaith ar gymeriad yr ardal i'r fath raddau y dylai hynny warantu gwrthod y cais. Ni fydd yr estyniad arfaethiedig i'w weld o'r parth cyhoeddus.

**Dwr Cymru** – Wedi argymhell amod ynglŷn â'r garthffosiaeth gyhoeddus. Oherwydd bod y cynnig yn golygu adeiladu dros y garthffosiaeth gyhoeddus, bydd amod yn cael ei gosod ar y penderfyniad yn dweud "Ni chaniateir dechrau unrhyw waith datblygu hyd nes y bo'r ymgeisydd wedi gwneud cytundeb "Adeiladu Dros neu Ger Garthffosiaeth Gyhoeddus" gyda Dwr Cymru Welsh Water neu fel all gael ei gytuno'n wahanol yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid cyflwyno copi o'r cytundeb i'r awdurdod cynllunio lleol cyn dechrau'r gwaith ar y safle".

**Effaith y cynnig ar ddeiliad eiddo cyfagos** – Nid wyf yn ystyried y bydd y cynnig yn cael effaith ar fwynderau eiddo cyfagos i'r fath raddau fel ag y dylid gwrthod y cais. Nid oes ffenestri ar weddluniau ochr yr estyniad arfaethiedig. Mae Polisi Cynllunio Cymru'n dweud "nid yw'r system gynllunio'n bodoli i ddiogelu diddordebau preifat un person yn erbyn gweithgareddau un arall".

## 7. Casgliad

Efallai nad yw'r cynnig yn adlewyrchu polisi lleol oherwydd fe ffafrir tô crib yn hytrach nag estyniad tô fflat. Fodd bynnag, nid ydym yn credu bydd y cynnig yn cael effaith ar gymeriad yr ardal nac ar fwynderau eiddo cyfagos i'r fath raddau y dylai hynny warantu gwrthod y cais.

## 8. Argymhelliad

**Caniatáu** ar yr amod na cheir unrhyw sylwadau anffafriol yn dilyn y cyfnod o gyhoeddusrwydd.

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Ni chaniateir dechrau unrhyw waith datblygu hyd nes y bo'r ymgeisydd wedi gwneud cytundeb "Adeiladu Dros neu Ger Garthffosiaeth Gyhoeddus" gyda Dwr Cymru Welsh Water neu fel all gael ei gytuno'n wahanol yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid cyflwyno copi o'r cytundeb i'r awdurdod cynllunio lleol cyn dechrau'r gwaith ar y safle**

Rheswm: Er mwyn diogelu integriti'r garthffosiaeth gyhoeddus ac osgoi niwed iddo.

**(03) Rhaid ymgymryd a'r datblygiad a ganiateir gan y caniatâd hwn yn fanwl yn ôl y cynllun a gyflwynwyd ar y 08/10/2012 o dan cais cynllunio rhif. 19C1103.**

Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

12.10

Gweddill y Ceisiadau

Remainder Applications

Rhif y Cais: 23C160J Application Number


Ymgeisydd Applicant

**CMP trading as Clive Hurt Plant Hire  
c/o Caulmert Ltd  
8 St George's Court  
Altrincham Business Park  
Dairyhouse Lane  
Altrincham  
Cheshire  
WA14 5UA**

Amrwyio amodau (19) & (20) ar ganiatad cynllunio  
rhif 23C160D\EIA yn

Variation of conditions (19) & (20) of planning  
permission ref 23C160D\EIA at

Rhuddlan Bach Quarry, Brynteg



**Pwyllgor Cynllunio: 07/11/2012**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (RWW)**

**Argymhelliad:**

Caniatáu

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Ar ofyn yr Aelod Lleol

### **1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae chwarel a safle tirlenwi Rhuddlan Bach wedi ei leoli ger priffordd y B5110, oddeutu 5 cilometr i'r gogledd orllewin o Langefni a 3 cilometr i'r gorllewin o Benllech. Mae'r safle wedi ei leoli yn y cefn gwlad agored, gyda thir amaethyddol yn amgylchynu'r safle i'r gogledd, de, dwyrain a gorllewin tra bod Ardal Gadwraeth Arbennig (SAC) Cors Goch yn rhedeg tu hwnt i gae amaethyddol ar hyd ffin ddeheuol y safle.

Cais yw hwn i ddiwygio amodau 19 a 20 o ganiatâd cynllunio 23C160/EIA/ECON i ymestyn y chwarel galchfaen presennol ynghyd a'i adfer drwy dirlenwi gyda gwastraff anadweithiol.

Mae amod cynllunio 19 yn ymwneud a mesur a monitro lefelau sbardyn (trigger levels) a chynnwys y dŵr daear ac wyneb sydd yn rhedeg o Rhuddlan Bach i Gors Goch a pha fesurau lliniaru y byddai'n cael eu cymryd pe byddai'r lefelau sbardun yn cael eu rhagori. Gosodwyd amod o'r fath i leihau'r risg o lygredd dŵr wyneb a daear I Gors Goch.

Gweler yr amod fel a ganlyn:

*Ni chaff unrhyw ddatblygu ddigwydd hyd y bo'r ymgymwrwr wedi cytuno ar y lefelau amllder sbarduno a monitro, sydd ynghlwm fel Atodiad 1, yn nhermau dŵr wyneb a dŵr tir a'i fod yn cyflwyno ac yn cytuno yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Mwynau, gynllun lliniaru priodol. Bydd y mesurau lliniaru geir yn y cynllun yn cael ei rhoi ar waith os eir tros y lefelau sbarduno cytunedig.*

Mae amod cynllunio 20 yn gofyn am gyfarfod cynllunio blynyddol i gael ei gynnal ar ddyddiad pen-blwydd y caniatâd i drafod adroddiad monitro blynyddol y safle. Bwriad yr amod hwn yw i alluogi'r Awdurdod cynllunio adolygu'r gweithdrefnau gweithio a monitro'r chwarel ar effeithiau posibl ar adnoddau dŵr yr ardal.

Gweler yr amod fel a ganlyn:

*Oni bai iddo gael ei gytuno fel arall yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Mwynau, rhaid cynnal cyfarfod blynyddol i adolygu cynnydd y datblygiad ymhen blwyddyn i'r caniatâd hwn a bydd rhaid i'r ymgymwrwr baratoi adroddiad blynyddol ar ei gyfer. Rhaid i'r adroddiad blynyddol gael ei llunio a'i chyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Mwynau fis cyn dyddiad dathlu'r caniatâd hwn a rhaid iddo fod a'r holl ddata cefnogol ynghlwm fel atodiad. Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys asesiad o'r data a gasglwyd yn y flwyddyn flaenorol ynghyd ag fan lleiaf, yr adrannau canlynol:*

- *Gweithgareddau chwarelyddau'r flwyddyn (stripio pridd, craig a gymerwyd, dyfnder y gwaith, mewn lenwi ac yn y blaen).*
- *Tabl cydymffurfiaeth yn crynhoi'r data a gasglwyd o'i gymharu â gofynion monitro y mae'r Awdurdod Cynllunio Mwynau eu hangen.*
- *Dŵr tir, yn cynnwys adolygiad o lefelau, ansawdd a map tabl dŵr;*
- *Dŵr wyneb, yn cynnwys adolygiad o ansawdd, asesiadau llif;*

- *Cymariaethau yn erbyn lefelau sbarduno;*
- *Adolygiad o'r dull monitro ac unrhyw newidiadau all fod wedi eu rhoi ar waith;*
- *Crynodeb o'r effeithiau a'r mesurau lliniaru*
- *Cynllun monitro a methodoleg, yn cynnwys pwy sydd wedi ei hyfforddi, pwy wnaeth y gwaith, pwy wnaeth yr archwiliad, canlyniad yr archwiliad ac unrhyw gasgliadau a waned;*
- *Adolygiad asesiad ansawdd a rheoli ansawdd y dulliau*

Fel rhan o'r cais cynllunio hwn, mae'r ymgeisydd yn ceisio diwygio amod 19 er mwyn newid y lefelau sbardyn sydd wedi cael eu cytuno yn y caniatâd gwreiddiol i'r lefelau sbardyn hynny sydd wedi eu cymeradwyo ar gyfer Trwydded Amgylcheddol y safle dan reolaeth Asiantaeth yr Amgylchedd ac wedi eu cynnwys fel rhan o'r cais Cynllunio hwn.

Gweler 'eiriad diwygiedig yr amod mae'r ymgeisydd yn ceisio amdano:-

*Mae'r ymgymerwr yn cytuno i'r lefelau sbardyn priodol ac amllder a lefelau monitro fel ag yr atodwyd yn Atodiad1, yn nhermau dŵr wyneb a dŵr daear. Pe byddai'r lefelau sbardyn yn cael eu rhagori, bydd y camau lliniaru sydd wedi eu gosod yn Atodiad 1 yn cael ei gweithredu, pe na gytunir fel arall mewn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Mwynau.*

Mae'r ymgeisydd hefyd eisiau diwygio amod 20 fel bod yr adroddiad monitro yn cael ei baratoi a'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio'r un pryd y cyflwynir yr adroddiad monitro i'r Asiantaeth yr Amgylchedd fel rhan o'r Drwydded Amgylcheddol. Maent hefyd eisiau cynnal cyfarfod dim ond pe bod rheswm teilwng i wneud hynny.

Gweler 'eiriad diwygiedig i'r amod mae'r ymgeisydd yn ceisio amdano:-

*Oni bai iddo gael ei gytuno fel arall yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Mwynau bydd rhaid cyflwyno adroddiad monitro gael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Mwynau erbyn 28ain Chwefror o bob blwyddyn. Bydd l'r adroddiad blynyddol gynnwys asesiad o'r data a gasglwyd y flwyddyn flaenorol ynghyd ag fan lleiaf, yr adrannau canlynol:*

- *Gweithgareddau chwarelyddau'r flwyddyn (stripio pridd, craig a gymerwyd, dyfnder y gwaith, mewn lenwi ac yn y blaen).*
- *Tabl cydymffurfiaeth yn crynhoi'r data a gasglwyd o'i gymharu â gofynion monitro y mae'r Awdurdod Cynllunio Mwynau eu hangen.*
- *Dŵr tir, yn cynnwys adolygiad o lefelau, ansawdd a map tabl dŵr;*
- *Dŵr wyneb, yn cynnwys adolygiad o ansawdd, asesiadau llif;*
- *Cymariaethau yn erbyn lefelau sbarduno;*
- *Adolygiad o'r dull monitro ac unrhyw newidiadau all fod wedi eu rhoi ar waith;*
- *Crynodeb o'r effeithiau a'r mesurau lliniaru*
- *Cynllun monitro a methodoleg, yn cynnwys pwy sydd wedi ei hyfforddi, pwy wnaeth y gwaith, pwy wnaeth yr archwiliad, canlyniad yr archwiliad ac unrhyw gasgliadau a waned;*
- *Adolygiad asesiad ansawdd a rheoli ansawdd y dulliau*

## **2. Mater(ion) Allweddol**

A yw'r cynnig am gyfrannu i wella rheolaeth amgylcheddol y chwarel a'r safle tirlenwi; gan ddiogelu a lliniaru unrhyw effeithiau posibl ar ddyodiadau Cors Goch. A yw'r cynnig yn dderbyniol o ran polisi cynllunio, ac ystyriaethau cynllunio materol.

## **3. Prif Bolisïau**

### **Cynllun Lleol Ynys Môn**

Polisi 33 – Diogelu Natur



## **Cynllun Fframwaith Gwynedd**

Polisi D1 – Amgylchedd

## **Cynllun Unedol Ynys Môn wedi'i atal**

Polisi EN4 – Bioamrywiaeth

Polisi EN5 – Safleoedd o bwysigrwydd Rhyngwladol

### **4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Aelod Lleol – Galw'r Cais I Bwyllgor oherwydd y perygl amgylcheddol posibl I Gors Goch

Cyngor Cymuned – Dim sylw

Awdurdod Priffyrdd (Draeniad) - I ymgynghori gyda CCGC ac Asiantaeth yr Amgylchedd

Gwasanaethau Amgylcheddol (Iechyd) – Dim sylw

Dŵr Cymru – Dim sylw

Asiantaeth yr Amgylchedd – Dim gwrthwynebiad

Cyngor Cefn Gwlad Cymru - Consyrn am y diwygiadau y gofynnir amdano.

Ymgynghorydd Ecolegol – I ymgynghori gyda CCGC

Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig – Dim Gwrthwynebiad

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru - Dim sylw

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cais drwy osod rhybudd ar y safle a llythyrau hysbysu i gymdogion. Ni dderbyniwyd unrhyw sylw'n gysylltiedig â'r cyhoeddusrwydd.

### **5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

23C160 - Ymestyn y chwarel galchfaen ynghyd a chodi sied i gadw tywod a gweithdy, gosod mathrwr symudol, rheoleiddio'r llyn ac adnewyddu gan ddefnyddio gwastraff anadweithiol Chwarel Rhuddlan Bach, Brynteg – Tynnwyd yn ôl 13/5/98

23C160A - Adnewyddu'r chwarel gyda gwastraff anadweithiol ynghyd a gweithredu gorsaf trosglwyddo gwastraff adeiladu a dymchwel yn Chwarel Rhuddlan Bach, Brynteg – Caniatau 4/2/00

23C160B - Adolygu'r amodau dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 yn Chwarel Rhuddlan Bach, Brynteg – Caniatau 15/2/00

23C160C - Amrwyio amod (01) (amser cyfyngedig) ar ganiatad cynllunio rhif 23C160B Chwarel Rhuddlan Bach, Brynteg – Caniatau 4/4/00

23C160D/EIA - Ehangu'r chwarel galchfaen bresennol yn Chwarel Rhuddlan Bach, Brynteg – Caniatau 8/6/06

23C160D/SCO - Barn sgopio yn Chwarel Rhuddlan Bach, Brynteg – Angen AEA 14/11/02

23C160E/SCR - Barn gogryniad yn Chwarel Rhuddlan Bach, Brynteg – Dim angen AEA 2/12/03

23C160F - Cais am ganiatad dros dro am 5 mlynedd i leoli carafan statig ar gyfer gwarchodwr safle yn Chwarel Rhuddlan Bach, Brynteg – Gwrthod 25/8/06

23C160G - Newid amod (02) o ganiatad cynllunio 23C160A 'Bydd y gwaith y rhoddir caniatad i'w wneud yn dod i ben ar neu cyn 31 Ionawr 2010' i alluogi gweithrediad i barhau tan 31/12/2040 yn Chwarel Rhuddlan Bach, Brynteg – Caniatáu 19/8/10

23C160H - Dileu amodau 18, 19 & 20 (monitro) oddi ar ganiatad cynllunio rhif 23C160D\EIA yn Chwarel Rhuddlan Bach, Brynteg – Tynnwyd yn ôl 24/8/11

## 6. Prif Ystyriaethau Cynllunio

Roedd caniatâd cynllunio 23C160D/EIA yn destun Astudiaeth Effaith Amgylcheddol (Environmental Impact Assessment). Oherwydd effaith posibl y datblygiad ar Gors Goch roedd yn ofynnol i'r Awdurdod Cynllunio ymgymryd ag Asesiad Priodol o dan Reoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol) cyn pennu'r cais.

Gosodwyd yr amodau 19 a 20 gwreiddiol ar y caniatâd er mwyn rheoli a monitro effaithiau amgylcheddol bwriedig ar Gors Goch fel nad oes effaith andwyol ar rinweddau a nodweddion arbennig y SAC. Gosodwyd yr amodau hyn drwy lawn ystyried gofynion cylchlythyr 35/95 Cymru, ble mae'n rhaid i amodau cynllunio fod yn deg, rhesymol, ymarferol, thrylwyr, yn bosibl eu gorfodi ac yn angenrheidiol i ganiatáu'r datblygiad.

Yn dilyn derbyn caniatâd Cynllunio 23C160D/EIA bu rhaid i'r safle, oherwydd y gweithgareddau gwastraff geisio am drwydded amgylcheddol gan Asiantaeth yr Amgylchedd, I reoli a diogelu unrhyw effaithiau posibl ar yr amgylchedd naturiol.

Yn dilyn derbyn trwydded amgylcheddol ar gyfer y safle golyga hyn fod llawer o waith dyblygu a gorgyffwrdd yn bodoli rhwng y ddau wahanol "reolydd" amgylcheddol (Caniatâd Cynllunio / Trwydded Amgylcheddol).

Er mwyn trafod oblygiadau'r cais trefnwyd cyfarfod cyd rhwng Asiantaeth yr Amgylchedd a CCGC ar y 13eg Ionawr. Nodwyd cynrychiolydd yr Asiantaeth fod trwydded amgylcheddol y safle angen ei ddiweddarau a gallasai hyn effeithio ar y lefelau sbardyn ar gyfer y safle gyfan. Oherwydd hyn cytunwyd gyda'r ymgeisydd na fyddai'r cais cynllunio yn cael ei benderfynu hyd nes bydd y drwydded amgylcheddol ar gyfer y safle wedi ei ddiwygio.

Hyd yma mae'r drwydded amgylcheddol eto i gael ei benderfynu. O ganlyniad i hynny ail edrychwyd ar yr amodau a gynigwyd fel rhan o'r cais hwn, ac roeddwn o'r farn nad oedd angen clymu amod 19 i lefelau sbardyn penodol, rhag ofn i'r Asiantaeth newid y lefelau sbardyn fel rhan o ddiwygiad pellach i'r drwydded amgylcheddol yn y dyfodol. Yn hytrach ystyrir y dylid gosod yr amod Cynllunio llym ond hyblyg canlynol yn gofyn i'r ymgeisydd gytuno gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol ar lefelau sbardyn addas i ddisodli amod gwreiddiol 19:

**Oni chytunir fel arall mewn ysgrifenedig gyda'r awdurdod cynllunio lleol: Ni chychwynnir ar unrhyw ddatblygiad hyd nes i'r ymgymerwr gytuno ar lefelau sbardun a monitro yn nhermau dŵr wyneb a dŵr tir a'i fod yn cyflwyno ac yn cytuno yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Mwynau, gynllun lliniaru priodol. Bydd y mesurau lliniaru ceir yn y cynllun yn cael ei rhoi ar wiath os eir tros y lefelau sbarduno cytunedig.**

Wrth ystyried y diwygiadau bwriedig i amod 20: Nid oes gwrthwynebiad i newid dyddiad cyflwyno'r adroddiad er mwyn cyd redeg â'r drwydded amgylcheddol. Er hynny rhaid nodi nad yw'r amod 20 diwygiedig sydd yn cael ei gynnig gan yr ymgeisydd yn cwrdd â gofynion Cylchlythyr 35/95. Yn dilyn ymgynghori â'r Asiantaeth a

CCGC fe gytunwyd y gellid tynnu'r cyfarfod blynyddol allan o'r amod. Y rheswm am hyn yw oherwydd pe byddai yna broblem gyda'r data blynyddol a gyflwynir, fe fyddai'n rhaid trefnu cyfarfod dan brotocol Cydymffurfiaeth yr Awdurdod Cynllunio Mwynau ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

Gyda hynny awgrymwyd y dylid newid yr amod fel a ganlyn:-

**Oni chytunir fel arall mewn ysgrifenedd gyda'r Awdurdod Cynllunio Mwynau bydd rhaid cyflwyno adroddiad monitro i'r Awdurdod Cynllunio Mwynau erbyn 28ain Chwefror o bob blwyddyn. Bydd l'r adroddiad blynyddol gynnwys asesiad o'r data a gasglwyd y flwyddyn flaenorol ynghyd â lleiafswm cynnwys, yr adrannau canlynol:**

- Gweithgareddau chwarelyddau'r flwyddyn (stripio pridd, craig a gymerwyd, dyfnder y gwaith, mewn lenwi ac yn y blaen).
- Tabl cydymffurfiaeth yn crynhoi'r data a gasglwyd o'i gymharu â gofynion monitro y mae'r Awdurdod Cynllunio Mwynau eu hangen.
- Dŵr tir, yn cynnwys adolygiad o lefelau, ansawdd a map tabl dŵr;
- Dŵr wyneb, yn cynnwys adolygiad o ansawdd, asesiadau llif;
- Cymariaethau yn erbyn lefelau sbarduno;
- Adolygiad o'r dull monitro ac unrhyw newidiadau all fod wedi eu rhoi ar waith;
- Crynodeb o'r effeithiau a'r mesurau lliniaru
- Cynllun monitro a methodoleg, yn cynnwys pwy sydd wedi ei hyfforddi, pwy wnaeth y gwaith, pwy wnaeth yr archwiliad, canlyniad yr archwiliad ac unrhyw gasgliadau a waned;
- Adolygiad asesiad ansawdd a rheoli ansawdd y dulliau

## **7. Casgliad**

Ni dderbyniwyd unrhyw sylw gwrthwynebus gan ymgynghorwyr statudol, nag aelodau o'r cyhoedd i'r cais hwn. Ac yn seiliedig ar yr adroddiad uchod ynghyd a'r diwygiadau yr wyf wedi ei wneud i'r amodau ystyrir eu bod nawr yn unol â pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol a nodwyd oddi fewn y ddogfen hon yn ogystal â chwrdd â gofynion Cylchlythyr 35/95.

## **8. Argymhelliad**

**Caniatáu**

12.11

Gweddill y Ceisiadau

Remainder Applications

Rhif y Cais: 30C726C Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Mr P Huws  
c/o Aspire Planning Ltd  
Second Floor Offices  
15 Boulevard  
Weston-super-Mare  
Avon  
BS23 1NR**

Codi 1 twrbin wynt gyda uchder hwb hyd at uchafswm o 15m, diametr rotor hyd at uchafswm o 11.1m a uchder blaen unionsyth fertigol hyd at uchafswm o 20.9m ar dir yn

Erection of 1 wind turbine with a maximum hub height of up to 15m, rotor diameter of up to maximum of 11.1m and a maximum upright vertical tip height of up to 20.9m on land at

Ynys Uchaf, Brynteg



**Pwyllgor Cynllunio: 07/11/2012**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (MTD)**

**Argymhelliad:**

Caniatáu

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae'r cais yn cael ei adrodd i'r pwyllgor oherwydd penderfynwyd na fydd pwerau dirprwyedig yn cael eu defnyddio mewn cysylltiad â datblygiadau tyrbinau gwynt.

Cafodd y cais ei alw i mewn yn wreiddiol hefyd gan yr Aelod Lleol.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Gwneir cais am un tyrbîn gwynt gydag uchafswm uchder i flaen y llafrn o 20.9m metr ac uchafswm diamedr rotor o 11.1m metr. Mae cyfradd pŵer y tyrbîn yn 15KW. Mae'r gwneuthuriad a'r model wedi eu nodi yn y cais cynllunio a bydd yn cael ei osod ar fonopol a osodir ar sylfaen goncrîd a fydd i'r gorllewin o adeiladau diwydiannol sy'n bodoli eisoes. Mae'r manylion a gyflwynwyd yn dangos y bydd y ceblau sy'n cysylltu â'r rhwydwaith trydan o dan y ddaear ac mae'r pwynt cysylltu yn Ynys Uchaf..

Mae'r cais cynllunio yn cael ei gefnogi gan y canlynol:

- Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol.
- Cynllun OS yn dangos y Parth Gwelededd Damcaniaethol (ZTV).
- Ffotogyfosodiadau.
- Datganiad cefnogol cynllunio sy'n manylu ymhlith ystyriaethau eraill ar yr ymgysylltu cymunedol a wnaethpwyd gan yr ymgeiswyr.

**2. Mater(ion) Allweddol**

- Egwyddor y datblygiad
- Tirwedd ac Effaith Weledol
- Amwynder Preswyl.

**3. Prif Bolisiâu**

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

C7 Ynni Adnewyddadwy  
D3 Ardal Gadwraeth Tirwedd  
D10 Diogelu Treftadaeth Naturiol

**Cynllun Lleol Ynys Môn**

31 Tirwedd  
33 Diogelu Natur  
45 Ynni Adnewyddadwy

**Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd**

EP 18 Ynni Adnewyddadwy  
EN1 Cymeriad y Dirwedd  
EN4 Bioamrywiaeth  
EN6 Safleoedd Cenedlaethol

**Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 4 (Chwefror 2011)**

**Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (Gorffennaf 2010).**

**Nodyn Cyngor Technegol 8 Ynni Adnewyddadwy (2005)**

**Cyfarwyddyd Ymarfer: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel - Llawlyfr i Gynllunwyr', Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010)**

**Cyfarwyddyd Ymarfer Goblygiadau Cynllunio Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel (Chwefror 2011)**

**Canllawiau Cynllunio Atodol Datblygiadau Ynni Gwynt (Ionawr 1994).**

#### **4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

**Yr Aelod Lleol** – Cyfeirio i'r Pwyllgor

**Cyngor Cymuned** – Gwrthwynebu oherwydd bod y safle yn ymyl yr AHNE ac o'r herwydd, mae'r cynnig yn groes i bolisi.

**Priffyrdd** – Sylwadau

**Draenio** – Argymhell hysbysiadau cynghori.

**Gwasanaethau Amgylcheddol** – Caniatâd amodol.

**Ymgynghorydd Amgylcheddol** Dim gwrthwynebiad.

**Cyngor Cefn Gwlad Cymru** Dim yn gwrthwynebu'r cynnig cyn belled ag y bydd amod yn cael ei gynnwys mewn perthynas â'r dull adeiladu.

**MOD** Dim gwrthwynebiad

**Dŵr Cymru** Dim sylwadau.

**Asiantaeth yr Amgylchedd** Risg amgylcheddol isel.

#### **Ymateb i Gyhoeddusrwydd**

Derbyniwyd 36 o lythyrau, pwyntiau a godwyd ynddynt yn cynnwys:

- Bydd difrod gweledol
- Bydd Parc Glan Gors yn cael ei niweidio
- Bydd y tyrbîn yn lladd adar ac ystlumod
- Mae'r safle yn ymyl y SDdGA
- Nid arallgyfeirio amaethyddol yw hyn oherwydd nid yw'n fferm weithredol
- Gall cysgod-gryniant achosi i yrwyr gael ffitiau
- Byddai'r sŵn suo yn gyrru pobl yn wallgof
- Byddai'r sŵn yn ymyrryd ar y warchodfa natur
- Mae'r cynnig yn tynnu'n groes i'r CCA oherwydd mae yn yr ardal glustogi 500m
- Mae'r tyrbîn yn ymyl safle twristiaeth
- Bydd yn cael effaith andwyol ar y tirlun
- Mae'r safle yn ymyl SDdGA a Gwarchodfa Natur Leol sy'n ffurfio rhan o Safle Ramsar Corsydd

Llyn

- Ni fyddai'n cynhyrchu digon o drydan i gyfiawnhau ei fodolaeth
- Byddai modd ei weld yn glir o'r llwybr troed
- Dim ond 340m o Barc Gwyliau Glan Gors a bydd yn cael effaith ar y diwydiant twristiaeth
- Ni ddylai fod o fewn 50m i wrychyn a hynny er mwyn gwarchod bywyd gwyllt
- Bydd modd ei weld o filltiroedd
- Mae'n bosibl y ceid ceisiadau pellach
- Pryderon ynglŷn â'r effaith gronol oherwydd mae cynlluniau ar gyfer rhai eraill gerllaw
- Byddai lledu'r ffordd i bwrpas mynediad yn dinistrio coed a waliau
- Mae'n bosibl y byddai'n difrodi rhai nodweddon yn y SDdGA
- Dylid darparu darlun gweledol llawn
- Cafwyd 3 barn sgrinio ac mae cais ar gyfer treulydd anaerobig – mae hyn yn berthnasol
- Mae'n gosod cysail
- Bydd sŵn suo amllder isel
- Dim cyfiawnhad ar gyfer tyrbinau unigol sy'n fwy na rhai micro-gynhyrchu oni bai fod cefnogaeth gref o'r gymuned a buddiannau i'r gymuned honno
- Bydd modd ei weld o'r warchodfa gyfan
- Effaith ar lonyddwch yr ardal dawel hon
- Anawsterau o ran mynediad
- Dim digon o wybodaeth ynghylch bywyd gwyllt a thraffig
- Dylai fod ardal glustogi o gwmpas y safleoedd a ddiogelir
- Modd ei weld yn glir o'r llwybrau troed
- Effaith andwyol ar olygfeydd
- Sylwadau a chyflwyniadau'r asiantiaid yn annerbyniol ac yn diystyru'r rhestr wirio – rhaid unioni hyn

## 5. Hanes Cynllunio Perthnasol

30C726/SCR – Barn sgrinio am 1 tyrbîn – Dim angen AEA 24/11/11

30C726A/SCR - Barn sgrinio am 2 dwrbîn – Dim angen AEA 24/11/11

30C726B/SCR Barn sgrinio am 1 tyrbîn – Dim angen AEA 09/01/12

## 6. Prif Ystyriaethau Cynllunio

### Egwyddor datblygu

Noda Polisi C7 Cynllun Fframwaith Gwynedd:

“Bydd rhagdybiaeth o blaid prosiectau gydag ynni y gellir ei adnewyddu, ar yr amod fod yr effaith ar yr ardal yn dderbyniol i'r awdurdod cynllunio lleol. Lle bo hynny'n briodol, dylid cefnogi'r cynigion gan asesiad o'r effaith ar yr amgylchedd.”

Noda Polisi 45 Cynllun Lleol Ynys Môn:

“Bydd caniatâd yn cael ei roddi i brosiectau ynni adnewyddol pan fo modd dangos yn glir na chânt effaith annerbyniol ar :- i. Gymeriad y tirwedd. ii. Safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol neu leol o safbwynt diogelu natur.

iii. Rhywogaethau pwysig o safbwynt diogelu natur.

iv. Safleoedd a henebion hanesyddol o bwys.

v. Safon y pleserau y mae preswylwyr ac ymwelwyr yn eu mwynhau. vi. Sustemau cysylltu hanfodol a gwasanaethau cyhoeddus hanfodol.

Noda Polisi 8B- Datblygiadau Ynni Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd:

“Caniateir ceisiadau ar gyfer datblygu adnoddau ynni adnewyddadwy ac adnewyddadwy lle y gellir dangos na fydd unrhyw effaith andwyol annerbyniol ar yr amgylchedd. Rhoddir y flaenoriaeth i ddatblygu ffynonellau ynni glan ac adnewyddadwy, ond gellir caniatáu cynigion ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy os byddant yn hyrwyddo manteisio i'r eithaf ar effeithlonrwydd ynni yn eu cynllun.”

Mae Polisi EP18 (Ynni Adnewyddadwy) o Gynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd yn datgan bydd prosiectau ynni adnewyddadwy yn cael eu caniatáu lle gellir yn glir gellir dangos na fydd unrhyw effaith andwyol sylweddol ar y meini prawf a restrir.

Mae Adran 12.8 (Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel) Polisi Cynllunio Cymru (4ydd Argraffiad Chwefror 2011) yn rhoi cefnogaeth gref i brosiectau ynni adnewyddadwy yn unol â Datganiad Polisi Ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010), paragraff 12.8.1 sy'n datgan:

“...Mae'n esbonio ein nod o fod mewn sefyllfa, erbyn 2050, lle y gellir diwallu bron y cyfan o'n hanghenion ynni lleol drwy drydan o ffynonellau carbon isel. Gwnawn hyn drwy leihau defnydd ynni a gwella effeithlonrwydd ynni ar bob graddfa ledled Cymru...”

Noda Paragraff 12.8.2:

“...Dylai polisïau cynllunio ar bob lefel hwyluso cyflawni Datganiad Polisi Ynni cyffredinol Llywodraeth y Cynulliad, a thargedau'r DU ac Ewrop ar ynni adnewyddadwy...”

Mae Adran 12.10.1 a atgynhyrchir isod yn tynnu sylw at faterion y dylai'r awdurdod cynllunio lleol eu hystyried wrth ymdrin â datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel a seilwaith cysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys agweddau cadarnhaol megis cyfrannu at gwrdd â thargedau cenedlaethol, y DU ac Ewropeaidd, ac yn ehangach buddiannau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Mae hefyd yn amlygu'r angen i ystyried yr effaith ar y dreftadaeth naturiol, yr arfordir a'r amgylchedd hanesyddol a'r angen i leihau'r effeithiau ar gymunedau lleol. Amlygir materion eraill hefyd o fewn yr adran hon, megis lliniaru a materion seilwaith h.y. y cysylltiad â'r grid a'r rhwydwaith cludiant, fel a ganlyn:

12.10.1 Wrth benderfynu ar geisiadau am ddatblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel a seilwaith cysylltiedig, dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried:

- cyfraniad y cynnig at fodloni targedau a'r potensial a bennwyd yn genedlaethol<sup>32</sup>, a chan y DU ac Ewrop, ar gyfer ynni adnewyddadwy, gan gynnwys y cyfraniad at dorri allyriadau nwyon tyf gwydr;
- y manteision a'r cyfleoedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ehangach yn sgil datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel;
- yr effaith ar y dreftadaeth naturiol (gweler Adran 5.5), yr arfordir (gweler Adran 5.6) a'r amgylchedd hanesyddol (gweler Adran 6.5);
- yr angen i leihau'r effeithiau ar gymunedau lleol er mwyn diogelu ansawdd bywyd cenedlaethau heddiw ac yfory;
- ffyrdd o osgoi neu liniaru effeithiau andwyol a nodwyd, neu i wneud yn iawn amdanynt; effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar leoliad a dyluniad datblygiad ynni adnewyddadwy a charbon isel, y modd y caiff ei adeiladu a'r modd y caiff ei weithredu. Wrth wneud hynny, dylai ystyried a ydy'r mesurau i ymaddasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn arwain at effeithiau eraill (gweler 4.2);
- materion sy'n ymwneud â'r cysylltiad â'r grid, pan gynnigir datblygiadau ynni adnewyddadwy (trydan);
- gallu'r seilwaith trafndiaeth, a'r effeithiau arno, yn gysylltiedig ag adeiladu neu weithredu'r cynnig.

Noda paragraff 12.8.13 y bydd yr effeithiau o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy a seilwaith cysylltiedig yn amrywio gan ddibynnu ar eu math, lleoliad a graddfa. Mae hyn angen polisi ac ystyriaethau rheoli datblygu gwahanol. Ceir tabl yn Ffigur 12.3 (Graddfeydd ynni adnewyddadwy ac isel i ddibenion cynllunio).



Mae Nodyn Cyngor Technegol 8 Ynni Adnewyddadwy (2005) (paragraff 14) yn datgan fod gan Lywodraeth y Cynulliad darged o 4TWh o drydan y flwyddyn i gael ei gynhyrchu o ynni adnewyddadwy erbyn 2010 a 7TWh erbyn 2020. Er mwyn cyrraedd y targedau hyn, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dod i'r casgliad bod angen 800MW o gapasiti gosodedig ychwanegol o ffynonellau gwynt ar y tir.

Mae paragraff 2.12 o TAN 8 yn nodi fod Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i awdurdodau cynllunio lleol annog, drwy eu polisiâu cynllun datblygu ac wrth ystyried ceisiadau cynllunio unigol, cynlluniau ffermydd gwynt cymunedol llai (yn gyffredinol yn llai na 5 MW). Gellir ystyried y datblygiad sy'n destun yr adroddiad hwn yn fach, ond nid yw'n gynllun cymunedol.

Noda Paragraff 2.13:

"Dylai rhan fwyaf o ardaloedd y tu allan i SSAs fod yn rhydd o gynlluniau pŵer gwynt mawr. Efallai y bydd awdurdodau cynllunio lleol yn dymuno ystyried effaith gronns cynlluniau bach mewn ardaloedd y tu allan i'r Ardal Chwilio Strategol a sefydlu meini prawf addas ar gyfer pellteroedd gwahanu oddi wrth ei gilydd ac oddi wrth berimedr cynlluniau ynni gwynt presennol neu yr Ardaloedd Chwilio Strategol. "

Mae Adran 2 Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy yn cynnwys y canllawiau canlynol:

"2.1.1 Mae gan y system gynllunio rôl allweddol i'w chwarae wrth gefnogi cyflenwad cymunedau gwledig cynaliadwy. Gall helpu sicrhau y cyflawnir datblygiadau priodol yn y man cywir ar yr adeg gywir drwy sicrhau bod digon o dir ar gael i ddarparu cartrefi a chyfleoedd gwaith i bobl leol, gan helpu cynnal gwasanaethau gwledig. Ar yr un pryd, rhaid i'r system gynllunio ymateb i'r heriau sy'n codi yn sgil newid yn yr hinsawdd, er enghraifft drwy gynnwys yr angen i gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Rhaid iddo hefyd warchod a gwella'r amgylchedd naturiol a hanesyddol a diogelu cefn gwlad a mannau agored. Nod cyffredinol y system gynllunio yw cefnogi cymunedau gwledig sy'n fyw ac yn gweithio er mwyn iddynt fod yn gynaliadwy yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol. Dylai awdurdodau cynllunio geisio cryfhau cymunedau gwledig, drwy helpu i sicrhau bod modd i'w trigolion presennol weithio a defnyddio gwasanaethau yn lleol, gan ddefnyddio dulliau teithio carbon isel a chael cyfran uwch o'u hynni o ffynonellau adnewyddadwy lleol."

Yng nghyswllt arallgyfeirio ar ffermydd mae Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy yn cynnwys y canllawiau canlynol:

"3.7.2 Mae'n bosibl lleoli nifer o weithgareddau economaidd yn gynaliadwy ar ffermydd. Mae gweithrediadau bach ar y fferm, megis prosesu bwyd a choed a pheccynnu bwyd, ynghyd â gwasanaethau (e.e. swyddfeydd, gweithdai, llogi a chynnal a chadw offer), gwasanaethau chwaraeon a hamdden, cynhyrchu cynydau heblaw am fwyd a chynhyrchu ynni adnewyddadwy i gyd yn debygol o fod yn ddefnyddiau priodol."

Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol: 'Datblygiadau Ynni Gwynt' (1994) a fabwysiadwyd gan y cyngor yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau tyrbinau gwynt. Fodd bynnag, oherwydd oed y ddogfen, mae yn y broses o gael ei disodli gan fersiwn wedi'i diweddarau o'r enw 'Ynni Gwynt ar y Tir', sydd ar hyn o bryd yn y cyfnod ôl-ymgynghorol, a dim ond ychydig o bwysau y gellir ei briodoli iddi.

Mae'r polisiâu a restrir uchod yn rhoi rhagdybiaeth o blaid datblygiadau ynni adnewyddadwy yn amodol ar ystyriaethau manwl. Bydd yr effeithiau o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy hefyd yn amrywio gan ddibynnu ar eu lleoliad a graddfa, ac mae angen polisi ac ystyriaethau rheoli datblygu gwahanol.

## **Tirwedd ac Effaith Weledol**

Byddai'r cais mewn Ardal a ddynodir fel Ardal Tirwedd Arbennig dan ddarpariaethau polisi 31 Cynllun Lleol Ynys Môn, D3 Cynllun Fframwaith Gwynedd ac EN1 Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd.

Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol (CCA), Datblygiadau Ynni Gwynt (Ionawr 1994) yn nodi na chaniateir datblygu ar safleoedd a allai amharu ar ansawdd, gosodiad a mwynhad y dirwedd warchoddedig. Mae angen asesu ceisiadau sydd o fewn 2km o'r AHNE yn ofalus; ac nad yw'r ffin yn awgrymu rhwystr pendant rhwng gwerthoedd cadwraeth o fewn, a'r tu allan.

Derbyniwyd map Parth Gwelededd Damcaniaethol a ffotogyfosodiadau ar gyfer y tyrbîn arfaethedig. Ymwelwyd â'r safle a derbynyddion sensitif sy'n agos at y safle.

Ni fyddai'r tyrbîn arfaethedig yn newid cymeriad tirlun yr ardal yn sylweddol.

Cyfyngir yr effaith weledol sylweddol i'r llwybrau troed sy'n agos at y safle yn arbennig o SCA Gors Goch. Câi effaith ar lonyddwch yr amgylchedd lleol ond nid ystyrir y byddai'n annerbyniol.

### **Mwynderau Preswyl**

Mae nifer o'r llythyrau o wrthwynebiad a dderbyniwyd yn seiliedig ar y ffaith ei fod yn agos at yr eiddo preswyl agosaf.

Mae Atodiad D TAN 8 yn rhestru'r ffactorau y dylid fel arfer eu hadolygu i ganfod "ardaloedd sy'n dechnegol ddichonadwy" ar gyfer datblygu cynlluniau ynni gwynt ar y tir. Ym mharagraff 3.4, nodir "ar hyn o bryd mae 500m yn cael ei ystyried yn bellter gwahanu nodweddiadol rhwng tyrbîn gwynt ac eiddo preswyl er mwyn osgoi effeithiau sŵn annerbyniol, fodd bynnag, pan gaiff ei ddefnyddio mewn modd anhyblyg gall arwain at ganlyniadau ceidwadol ac felly cynghorir rhywfaint o hyblygrwydd"

Mae Canllawiau Cynllunio Atodol Ynni Gwynt (1994) "CCA" y Cyngor yn nodi y bydd y cyngor yn rhoi ystyriaeth ffafriol i brosiectau ynni adnewyddadwy yn yr achosion hynny lle y gellir dangos yn glir na fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar yr ystyriaethau rhestredig sy'n cynnwys "safon y mwynderau a fwynheir gan y boblogaeth breswyl a thwristiaid ". O dan 7.3 "Diogelwch y Cyhoedd, Fflachiadau Cysgodion, Ymyrraeth Weledol ac Effaith ar Ddiogelwch y Briffordd" mae'r "CCA" yn cynnwys safon a argymhellir na fydd unrhyw dyrbin yn cael ei osod yn nes na 400 metr at y tŷ annedd agosaf, gydag eithriad posibl anheddau a feddiannir gan y perchnogion tir lle bwriedir lleoli'r tyrbînau.

Fel y nodwyd yn flaenorol yn yr adroddiad, ychydig o bwysau y gellir ei briodoli i'r CCA drafft sydd wrthi'n cael ei baratoi gan y cyngor.

Mae swyddogion wedi asesu'r effaith ar fwynderau gweledol/preswyl yr eiddo preswyl cyfagos a'r safle carafannau. Ar sail maint y tyrbîn arfaethedig a phellteroedd o'r anheddau hyn, ni ystyrir bod mwynderau gweledol y preswylwyr yn cael ei effeithio i raddau annerbyniol.

Mae Atodiad C Polisi Cynllunio Cymru yn rhoi cyngor ar Fflachiadau Cysgod a Golau a Adlewyrchir. Gwelir nad yw fflachiadau cysgodion ond yn digwydd mewn adeiladau sydd hyd at 10 diamedr rotor oddi wrth dyrbin ac o fewn 130 gradd ar naill ochr ogleddol y lledredau hyn yn y DU. Nid oes unrhyw eiddo preswyl o fewn yr ardal hon yn yr achos hwn, ac ni ddisgwylir niwsans fflachiadau cysgod mewn unrhyw eiddo preswyl o ganlyniad i'r datblygiad; fodd bynnag, mae amod wedi cael ei argymhell ar sail ragofalus.

Aiff Atodiad C ymlaen i nodi fod y gall tyrbînau hefyd achosi fflachiadau o olau adlewyrchol, a all fod yn weladwy o gryn bellter. Noda'r canllawiau y gellir lliniaru golau adlewyrchol trwy ddewis lliw llafn priodol, ac mae amod wedi cael ei argymhell ynglŷn â'r lliw er mwyn lliniaru'r effeithiau.

Mae'r cais hefyd wedi cael ei asesu gan Adain Gwasanaethau Amgylcheddol y cyngor ac nid ydynt yn ystyried y bydd y datblygiad yn cael effaith annerbyniol o ran sŵn, ond gyda'r amodau a argymhellwyd.

SDdGA/Bioamrywiaeth

Ymgynghorwyd gyda Swyddog Bioamrywiaeth y Cyngor a Chomisiwn Cefn Gwlad Cymru mewn perthynas â'r mater hwn ac nid oes ganddynt unrhyw wrthwynebiad i'r cynllun.

### **Materion Eraill**

Nid oes gan y Weinyddiaeth Amddiffyn wrthwynebiad i'r datblygiad ond gydag amodau.

Nid oes gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru nac Ymgynghorydd Amgylcheddol y cyngor wrthwynebiadau ar sail yr effaith ar rywogaethau a warchodir neu seiliau eraill yn unol â'u hymatebion i'r ymgynghoriad.

Mae effaith y datblygiad ar dwristiaeth yn ystyriaeth berthnasol. Comisiynodd Cyngor Ynys Môn ymchwil ar "Effaith Tyrbinau Gwynt ar Dwristiaeth" sydd wedi ei bwysoli wrth wneud yr argymhelliad isod.

### **7. Casgliad**

Ystyrir bod egwyddor y datblygiad yn dderbyniol. O ran mwynderau gweledol, fflachiadau cysgodion/adlewyrchu golau a sŵn, mae'r swyddogion yn ystyried bod y cais yn dderbyniol, yn amodol ar amodau. O ran yr effaith ar y dirwedd ac effaith weledol ni fyddai'r tyrbinau arfaethedig yn cael effaith gronnus andwyol sylweddol ar y dirwedd. Ni fyddai'n cael effaith sylweddol ar yr AHNE.

### **8. Argymhelliad**

Bod caniatâd cynllunio yn cael ei roi ond gyda'r amodau canlynol:

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: Er mwyn cydymffurfio gyda gofynion Adran 91(1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Mae caniatâd cynllunio am gyfnod na fydd yn fwy na'r 25 mlynedd ("y cyfnod 25 mlynedd") o'r dyddiad y caiff y datblygiad ei gysylltu gyntaf i'r grid trydan ("y grid"). Rhaid rhoi rhybudd o ddyddiadau (a) cysylltu am y tro cyntaf i'r grid a (b) gweithrediad llawn y tyrbinau yn ysgrifenedig i'r awdurdod cynllunio lleol o fewn 28 diwrnod i'r ddau beth hyn ddigwydd.**

Rheswm: Fel y gall yr Awdurdod Cynllunio Lleol adolygu'r sefyllfa yng ngoleuni'r amgylchiadau fydd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod.

**(03) Ni chaniateir i'r tyrbinau a ganiateir yma fod yn fwy na:**

<b>20.9 medr</b>	<b>Uchafswm uchder llafn* (*i ben fertigol uchaf llafn fydd yn sownd)</b>
<b>15 medr</b>	<b>Uchafswm uchder hwb</b>
<b>11.1 medr</b>	<b>Uchafswm diamedr rotor</b>

15 kw	Uchafswm graddfa pŵer
-------	-----------------------

Ni chaniateir gosod unrhyw dyrbin gwynt ar y safle hyd nes y bydd manylion am y gwneuthuriad, model, dyluniad, maint, lleoliad transformer, graddfa bŵer, lefelau sŵn, gorffeniad a lliw allanol y tyrbinau arfaethedig wedi eu cyflwyno yn ysgrifenedig ac wedi derbyn caniatâd ysgrifenedig yr awdurdod cynllunio lleol. Rhaid i lafnau'r tyrbîn droi i'r un cyfeiriad. Rhaid i'r datblygiad gael ei weithredu wedi hynny yn hollol unol â'r manylion fydd wedi'u cymeradwyo.

Rheswm: Er mwyn diffinio sgôp y caniatâd hwn o ystyried effaith y datblygiad fel y'i haseswyd.

**(04) Ar ddiwedd y cyfnod 25 mlynedd, rhaid dadgomisiynu'r tyrbîn a rhaid i'r holl strwythurau perthynol sydd uwchben y ddaear gael eu symud oddi ar y safle. Ddeuddeng mis cyn dadgomisiynu'r tyrbîn, rhaid cyflwyno cynllun ysgrifenedig ar gyfer ailadrodd y safle ("y cynllun dadgomisiynu" ) i'r awdurdod cynllunio lleol am ei ganiatâd ysgrifenedig. Rhaid i'r cynllun dadgomisiynu wneud darpariaeth i symud y tyrbîn gwynt a'u hoffer ategol cysylltiol i ddyfnder o 1m o leiaf o dan y ddaear. Rhaid i'r holl waith dadgomisiynu ac adfer gael ei wneud yn hollol unol â'r cynllun dadgomisiynu fydd wedi'i gymeradwyo ac yn unol â'r amserlen ynddo.**

Rheswm: Er mwyn sicrhau edrychiad boddhaol ar ddiwedd y datblygiad.

**(05) Os bydd y tyrbîn gwynt ganiateir yma yn methu cynhyrchu trydan i'w gyflenwi i'r grid am gyfnod parhaol o 12 mis rhaid i'r tyrbîn gwynt a'i offer ategol cysylltiol gael ei symud i ffwrdd i ddyfnder o 1m o leiaf o dan y ddaear a'i symud oddi ar y safle gyda'r tir yn cael ei ailosod o fewn cyfnod 6 mis o ddiwedd y cyfnod hwnnw o 12 mis yn unol â chynllun ("y cynllun symud") fydd wedi'i gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol ac wedi derbyn ei ganiatâd ysgrifenedig cyn dechrau'r datblygiad. Rhaid i'r datblygwr ddarparu data gweithredol ysgrifenedig ar gyfer tyrbinau unigol i'r awdurdod cynllunio lleol pan wneir cais ysgrifenedig rhesymol.**

Rheswm: Er budd mwynderau'r ardal.

**(06) O fewn 12 mis i'r "comisiynu" ac ar gais ysgrifenedig yr awdurdod cynllunio lleol, yn cynnwys unrhyw gyfnodau amser a osodir yn y cais; rhaid cyflwyno cynllun ysgrifenedig i liniaru unrhyw achosion o fflachiadau cysgodion yn unrhyw eiddo a effeithir yn cynnwys amserlen ("y cynllun lliniaru") i'r awdurdod cynllunio lleol a derbyn ei ganiatâd ysgrifenedig. Rhaid i weithrediad y datblygiad ganlyn ymlaen wedi hynny yn hollol unol â'r "cynllun lliniaru".**

Rheswm: I ddiogelu mwynderau deiliaid yr eiddo cyfagos.

**(07) Rhaid i'r holl geblau mewn cysylltiad â'r datblygiad a ganiateir trwy hyn fod wedi'u gosod o dan y ddaear (oni bai cymeradwywyd yn ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol).**

Rheswm: Er lles mwynderau.

**(08) Ni chaniateir dechrau'r datblygiad hyd nes y bo'r canlynol wedi'u cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol ac wedi derbyn ei ganiatâd ysgrifenedig.**

- 1) Y dyddiad y bydd y gwaith adeiladu'n dechrau ac yn dod i ben.
- 2) Hyd ymestyn mwyaf unrhyw offer adeiladu
- 3) Hydred a lledred pob tyrbîn.

Rhaid gwneud y datblygiad wedi hynny yn hollol unol â'r manylion a gymeradwywyd o dan ddarpariaethau'r amod hwn.

Rheswm: Er mwyn sicrhau bod awyrennau militaraidd yn osgoi'r ardal ac yn osgoi'r perygl o wrthdrawiad.

**(09) Ni chaniateir gosod unrhyw dyrbin gwynt ar y safle hyd nes y bydd cadarnhad o'r canlynol wedi'u cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol ac wedi derbyn ei ganiatâd ysgrifenedig:**

**1) Dim ond person cymwys gaiff osod y tyrbin a hynny'n unol â chyfarwyddyd y gwneuthurwyr a'r arolwg wnaed o'r safle.**

**2) Rhaid cynnal a chadw'r tyrbin yn unol ag argymhellion y gwneuthurwyr.**

**3) Ni chaniateir i'r sŵn cronol o'r tyrbin gwynt, wedi'u mesur 3.5m o wyneb unrhyw eiddo cyfagos gyda rhywun yn byw ynddo a heb fod ym mherchnogaeth yr ymgeisydd, fod yn fwy na 35dB LA90 (10 munud) hyd at gyflymder gwynt o 9m/s ar uchder yr hwb. Lle bo rhan o unrhyw eiddo cyfagos sydd yn sensitif i sŵn yn uwch na lefel y ddaear, rhaid i'r lleoliad monitro fod 1m oddi wrth y talcen a chywiriad talcen o -3dB(A) yn cael ei weithredu.**

**4) Ni chaniateir i'r tyrbin gwynt fod yn rhai tonaidd o ran cymeriad.**

**Rhaid i'r datblygiad fynd yn ei flaen wedi hynny yn hollol unol â'r manylion fydd wedi'u cymeradwyo.**

Rheswm: Er lles mwynderau deiliaid yr eiddo cyfagos.

**(10) Bydd datganiad ynghylch dull adeiladu'n cael ei baratoi mewn ymgynghoriad gyda Chefn Gwlad Cymru cyn cychwyn ar unrhyw waith a'i gytuno arno'n ysgrifenedig gan yr ACLI a glynir wrth y datganiad dull hwn bob amser yn ystod y gwaith adeiladu.**

Rheswm: Lleihau unrhyw effeithiau andwyol ar fioamrywiaeth yn yr ardal.

## **Hysbysiadau Cyngori**

Cynghorir yr ymgeisydd i gysylltu â Colin Edwards (Prif Beiriannydd) ar 01248 752350 i drafod y gofynion arolwg o gyflwr y rhwydwaith priffyrdd cyn cychwyn ar unrhyw ddatblygiad ar y safle. Bydd yr arolwg yn ddefnyddiol ar gyfer pob parti i ddarparu cofnod o gyflwr y briffordd gyhoeddus cyn cwblhau'r datblygiad.

## **9. Polisiâu Perthnasol Eraill**

### **Cynllun Fframwaith Gwynedd**

FF11 (Traffig)

### **Cynllun Lleol Ynys Môn**

1 (Polisi Cyffredinol)

35 (Diogelu Natur)

### **Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd**

GP1 (Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu)

EN4 (Bioamrywiaeth)

Nodyn Cyngor Technegol 5 Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009)

Nodyn Cyngor Technegol 11 Sŵn (1997)

**12.12**

**Gweddill y Ceisiadau**

**Remainder Applications**

Rhif y Cais: **31LPA963/CC** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Head of Services (Highways)  
Cyngor Sir Ynys Mon  
Swyddfa'r Cyngor  
Llangefni  
Ynys Mon  
LL77 7TW**

Cais llawn i newid defnydd o dir i greu safle parcio a theithio, llochesi bws a beiciau a mynediad newydd ynghyd â gwaith tirlunio cysylltiedig ar dir ger

Full application for the change of use of land to form a park and ride site, bus and bicycle shelters and new access together with associated landscaping on land adjacent to

Refail Goch, Llanfairpwll



**Pwyllgor Cynllunio: 07/11/2012**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (NJ)**

**Argymhelliad:**

Caniatáu.

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Cais yw hwn gan y Cyngor ar dir y Cyngor.

### **1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae'r safle oddi ar yr A5025 ger y groeslon gyda'r A55 yn Llanfairpwll. Mae yna fynedfa yn gwasanaethu'r eiddo yn Refail Goch, Llwydiarth a chartref nyrsio Sant Tysilio. Mae'r safle o fewn Lle Glas wedi'i ddynodi o dan y CDU a stopiwyd.

Bwriedir cael mynedfa newydd i'r safle i gyfeiriad cylchdro Four Crosses. Bydd traffig yn mynd i mewn i'r safle o'r fynedfa newydd hon ac yn defnyddio'r fynedfa bresennol fel lle i fynd allan o'r maes parcio ceir. Bydd cysgodfannau i fysus a beics yn cael eu darparu yn ogystal â lle parcio ceir ffurfiol.

Mae'r cynnig yn cael ei gyflwyno er mwyn ffurfioli'r parcio di-gynllun ar ochrau'r ffordd fel sy'n digwydd ar hyn o bryd ac i annog opsiynau cludiant cynaliadwy yn cynnwys cludiant cyhoeddus a rhannu cerbydau. Cefnogir y cais gydag adroddiadau arbenigol.

### **2. Mater(ion) Allweddol**

Y prif faterion gyda'r cais hwn yw – a fydd y cynnig yn cael effaith ar fwynderau eiddo cyfagos, cymeriad yr ardal leol a'r effaith ar ddiogelwch y briffordd.

### **3. Prif Bolisiâu**

#### **Cynllun Lleol Ynys Môn**

Polisi 1 - Polisi Cyffredinol

Polisi 30 – Tirwedd

Polisi 32 – Tirwedd

Polisi 39 - Archaeoleg

Polisi 42 – Dyluniad

#### **Cynllun Fframwaith Gwynedd**

Polisi D1 - AHNE

Polisi D4 – Lleoliad, Gosodiad a Dyluniad

Polisi D15 - Archaeoleg

Polisi D29 – Dyluniad

Polisi D32 – Tirlunio

Polisi FF2 – Cydbwysedd rhwng traffig a'r amgylchedd

Polisi FF10 – Darpariaeth parcio ceir

Polisi FF13 – Parcio mewn ardaloedd gwledig

Polisi FF14 – Meysydd parcio yng nghefn gwlad

Polisi FF15 – Gofynio defnyddwyr

## **Cynllun Datblygu Unedol wedi'i Stopio**

Polisi GP1 – Canllawiau Rheoli Datblygu  
Polisi GP2 – Dyluniad  
Polisi TR2 – Gwelliannau i'r Rhwydwaith Priffyrdd  
Polisi TR3 – Dyluniad Priffyrdd  
Polisi TR4 – Cludiant Cyhoeddus  
Polisi EN1 – Cymeriad Tirwedd  
Polisi EN2 – AHNE  
Polisi EN3 – Lletem Las  
Polisi EN4 – Bioamrywiaeth  
Polisi EN12 – Safleoedd Archaeologol a'r Amgylchedd Hanesyddol

## **Polisi Cynllunio Cymru (Chwefror 2010)**

**Nodyn Cyngor Technegol 12 – Dyluniad**

**Nodyn Cyngor Technegol 18 - Cludiant**

### **4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Yr Aelod Lleol – yn cefnogi'r cais

Cyngor Cymuned – dim ateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad

Dwr Cymru - dim carthffosfeydd cyhoeddus yn yr ardal.

Priffyrdd – dim ateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Draenio – wedi gofyn am fanylion pellach

Cyngor Cefn Gwlad Cymru- dim gwrthwynebiad yn amodol ar yr argymhellion yn yr Adroddiad Asesiad Amgylcheddol.

Adain Iechyd Amgylcheddol – dim ateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Ymgynghorydd Ecolegol – dim sylwadau ecolegol.

Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd - gwerthusiad archeolegol yn digwydd wedi'i ffosydd treialu gael eu tyllu.

Adain Amgylchedd Adeiledig a Thirwedd – dim ateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

### **Ymateb i Gyhoeddusrwydd**

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd mewn tair ffordd i'r cais. Rhoddwyd rhybudd safle ger y safle, cyhoeddwyd rhybudd yn y wasg yn lleol a rhoddwyd rhybuddion personol i ddeiliaid eiddo cyfagos. Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn sylwadau oedd 31 Hydref. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn nid oedd unrhyw sylwadau wedi eu derbyn.

### **5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

31C123 – Defnyddio tir fel parc trelar / lori a lleoli carafan / portacabin parhaol i'w defnyddio fel caffï ger Llwydiarth, Llanfairpwll – Gwrthodwyd 15/6/90.



31LPA963A/CC/SCR – Barn sgrinio ar gyfer newid defnydd y tir i ffurfio safle parcio a theithio, cysgodfan bws a beics, mynedfa newydd a thirlunio cysylltiol ar dir ger Refail Goch, Llanfairpwll.

## 6. Prif Ystyriaethau Cynllunio

**Yr effaith ar eiddo oddi amgylch** - Bydd y cynnig yn ffurfioli'r defnydd direol sy'n digwydd ar hyn o bryd o'r briffordd ar gyfer parcio a thrwy hynny'n lleihau tagfeydd a pherygl ar y briffordd i ddeiliaid lleol trwy barcio ceir yn ddifeddwl. Er y bydd y cynnig yn annog mwy o ddefnydd o'r safle, bydd darparu llefydd parcio dynodedig a chyfleon i ddefnyddio bws a beics yn caniatáu mwy o hunan reoli a bydd yn gwneud i ffordd (yn amodol ar i orchymyn traffig priodol gael ei wneud) â pharcio ymhob man ar ochr y ffordd ei hun. Yr eiddo agosaf at y cynllun yw Refail Goch a bydd yn parhau ar wahân i'r safle oherwydd yr hen ffordd sydd yno. Bydd gwrychyn a ffensio wedyn yn cael eu codi rhwng yr annedd a'r llefydd parcio y tu hwnt, gyda'r ffens yn cael ei gynnig i liniaru sŵn ac i rwystro i oleuni daflu ar yr eiddo. Bwriedir ei ddefnyddio ar sail 24 awr gyda gwasanaeth bws rheolaidd yn rhedeg yn gynnar yn y bore hyd yn hwyr yn nos. Dylid nodi nad yw'r safle yn cael ei reoli ar hyn o bryd. Fe ddylai'r cynllun wella'r mwynderau preswyl drwy leihau'r defnydd di-drefn a wneir o'r ffordd i fyny at y terfyn gyda'r annedd trwy ddarparu cyfleuster fydd wedi ei ddylunio i'r pwrpas.

**Yr effaith ar yr ardal** - Safle goediog yw'r safle rhwng yr A5025 ar hen lôn. Mae'n rhan o lecyn glas rhwng Four Crosses ym Mhorthaethwy a Llanfairpwll. Mae'n cyfrannu tuag at edrychiad gwledig y gwahaniad hwn sydd heb ei ddatblygu rhwng y ddau bentref ac yn rhoi ffin diffiniedig i'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Mae'r coed sydd wedi sefydlu yn y tir rhwng yr hen lôn a'r un newydd yn rhwystro golygfeydd i mewn i'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol pan yn teithio o Lanfair tuag at Borthaethwy. Ni ellir gweld golygfeydd o Bont y Borth hyd rhyw dwy ran o dair o'r ffordd ar hyd y lôn. Wedi'r pwynt hwn, fe ellir gweld y pentref a daw'r golygfeydd i mewn i'r AHNE yn fwy agored gyda waliau terfyn isel i'r caeau a hynny'n caniatáu golygfeydd agored o Eryri. Gan deithio tuag at Lanfair o Borthaethwy mae'r golygfeydd i mewn i'r AHNE ac o Lanfair ei hun yn cael eu cuddio gan y coed hyn rhyw un rhan o dair o ffordd ar hyd y lôn. Dyma'r achos hefyd nes y deuir i groeslon yr A5025 gyda'r A55.

Mae'r cynnig wedi ei leoli ar ran o'r ardal goediog a'r bwriad yw clirio'r coed yn y canol o fewn y safle i greu llefydd parcio a ffyrdd ond gan gadw rhai o'r coed o fewn 1m o'r gwaith newydd er mwyn rhoi rhyw synwyr o gau i mewn yn y safle o ffin y lôn a thrwy hynny gadw'r rhaniad gwyrdd ond hefyd wneud y lle'n agored i greu ymdeimlad o ddiogelwch i ddefnyddwyr. Mae Polisi EN3 yn dweud bod yn rhaid cadw rhaniadau gwyrdd er mwyn rhwystro unrhyw ddatblygu amhriodol sy'n tynnu oddi wrth gymeriad agored yr ardal ac er mwyn darparu rhaniad amgylcheddol rhwng cymunedau. Bwriad y cynnig yw ffurfioli a rheoli'r parcio di-drefn sy'n digwydd yn yr ardal ar hyn o bryd. Mae'r defnydd hwn eisoes mewn bodolaeth ond yn anffurfiol ac yn aml iawn yn ddifeddwl. Mae angen cyfleuster o'r fath yn y lleoliad hwn. Mae'r cynnig felly yn ceisio cydbwysu'r angen am y cyfleuster tra'n sicrhau na fydd yn tynnu oddi wrth y rhaniad gwyrdd.

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol - Nid yw'n glir a yw'r safle o fewn neu yn gyfagos i'r AHNE dynodedig. Mae'r mapiau gwreiddiol yn awgrymu bod ffin yr AHNE yn dilyn aleiniad y ffordd wreiddiol. Mae gwaith yn digwydd ar hyn o bryd i sicio cofnodiadau er mwyn gweld a wnaed unrhyw newid i ffin yr AHNE fel rhan o ail gyfeirio'r A5025 yn yr ardal. Prif amcan dynodiad AHNE yw cadw a gwella ei harddwch naturiol. Y mae'n ddyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol dalu sylw i fwradau'r AHNE ac fe ddylai unrhyw benderfyniadau rheoli datblygu sy'n effeithio'r AHNE'au fod o blaid cadw eu harddwch naturiol yn y lle cyntaf. Bydd y cynllun fel y'i bwriedir yn ffurfioli ac yn canoli'r parcio blêr tra'n cadw ychydig o sgrinio a phlannu. Ni fyddai'r cynnig yn erydu nodweddion yr AHNE pe bai wedi ei leoli o fewn yr ardal ddynodedig neu ar ei ffin.

**Yr effaith ar Ddiogelwch y Briffordd** - Mae'r cynllun wedi ei ddynodi er mwyn ffurfioli'r defnydd bler a difeddwl a wneir o'r briffordd gan rai sydd eisoes yn rhannu ceir ac yn cynnig atebion eraill i rai sy'n teithio ar draws y bont er mwyn lleihau tagfeydd a'r defnydd o geir preifat. Trwy ffurfioli'r ddarpariaeth, bydd amgylchedd diogel yn cael ei greu i rai sy'n defnyddio'r safle a bydd hyn yn ei dro yn gwella diogelwch i'r rhai sy'n defnyddio'r llwybrau cyhoeddus / llwybrau beicio cyfagos a rhwydwaith y ffyrdd.

**Archeoleg ac Ecoleg** - nid ydym yn credu y bydd y cynnig yn cael effaith niweidiol ar y materion hyn sydd o bwysigrwydd a gydnabyddir.

**Draenio** - Deallir y cafwyd cytundeb ar fanylion pellach a byddant yn cael eu cyflwyno nes ymlaen fel rhan o'r cais.

## **7. Casgliad**

Mae'r safle eisoes yn cael ei ddefnyddio ond mae yno barcio bler a difeddwl ac y mae i hynny oblygiadau i fwynderau preswyl a diogelwch y briffordd.

Mae'r cynllun yn cydnabod pwysigrwydd y rhaniad gwyrdd rhwng pentref Llanfair a Phorthaethwy ac, fel y'i bwriedir, fe ddylai gadw pwrpas y rhaniad hwnnw. Bydd y cynllun yn gwella mwynderau preswyl a diogelwch y briffordd.

## **8. Argymhelliad**

### **Caniatáu**

**(01) Rhaid dechrau'r datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn ag ef heb fod yn hwyrach na diwedd 5 mlynedd gan ddechrau gyda dyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: Er mwyn cydymffurfio gyda gofynion Deddf Cynllunio Gwlad a thref 1990.

**(02) Rhaid i'r datblygiad gael ei wneud yn unol â'r argymhellion geir yn Adroddiad Asesiad Amgylcheddol Cyfnod 1 CPF:3741 gyflwynwyd o dan gais cynllunio rhif 31LPA963/CC ar 19-9-12.**

Rheswm: Er mwyn sicrhau bod unrhyw rywogaethau a ddiogelir neu nodweddion yn y dirwedd ar y safle yn cael eu diogelu.

12.13

Gweddill y Ceisiadau

Remainder Applications

Rhif y Cais: 44C293 Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Mr Robert Jones  
Bryntirion  
Rhosybol  
Ynys Mon  
LL68 9TU**

Codi un twrbin wynt gyda uchder hwb hyd at uchafswm o 15.4m, diametr rotor hyd at uchafswm o 8m a uchder blaen unionsyth fertigol hyd at uchafswm o 19.4m ar dir yn

Erection of one wind turbine with a maximum hub height of up to 15.4m, rotor diameter of up to 8m and a maximum upright vertical tip height of up to 19.4m on land at

Bryntirion, Rhosybol



**Pwyllgor Cynllunio: 07/11/2012**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (DPJ)**

**Argymhelliad:**

Caniatáu

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae'r cais yn cael ei adrodd i'r pwyllgor oherwydd penderfynwyd na fydd pwerau dirprwyedig yn cael eu defnyddio mewn cysylltiad â datblygiadau tyrbinau gwynt.

### **1. Y Safle a'r Bwriad**

Gwneir cais am un tyrbîn gwynt gydag uchafswm uchder i flaen y llafn o 19.4 metr ac uchafswm diamedr rotor o 8.0 metr. Mae cyfradd pŵer y tyrbîn yn 11KW. Mae'r gwneuthuriad a'r model wedi eu nodi yn y cais cynllunio a bydd yn cael ei osod ar fonopol a osodir ar sylfaen goncrid a fydd mewn cae i'r gorllewin o'r fferm. Mae'r manylion a gyflwynwyd yn dangos y bydd y ceblau sy'n cysylltu â'r rhwydwaith trydan o dan y ddaear ac mae'r pwynt cysylltu i adeilad fferm bresennol.

Cafodd y tyrbîn arfaethedig ei ail-leoli yn ystod gwneud penderfyniad ar y cais cynllunio a hynny ymhellach tua'r gorllewin ac i fwrdd oddi wrth yr eiddo preswyl ger Rhosybol.

### **2. Mater(ion) Allweddol**

- Egwyddor y datblygiad
- Tirwedd ac Effaith Weledol
- Amwynder Preswyl.

### **3. Prif Bolisiau**

#### **Cynllun Fframwaith Gwynedd**

C7 Ynni Adnewyddadwy  
D3 Ardal Gadwraeth Tirwedd

#### **Cynllun Lleol Ynys Môn**

31 Tirwedd  
45 Ynni Adnewyddadwy

#### **Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd**

EP 18 Ynni Adnewyddadwy  
EN1 Cymeriad y Dirwedd

#### **Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 4 (Chwefror 2011)**

**Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (Gorffennaf 2010).**

**Nodyn Cyngor Technegol 8 Ynni Adnewyddadwy (2005)**

**Cyfarwyddyd Ymarfer: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel - Llawlyfr i Gynllunwyr', Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010)**

**Cyfarwyddyd Ymarfer Goblygiadau Cynllunio Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel (Chwefror 2011)**

**Canllawiau Cynllunio Atodol Datblygiadau Ynni Gwynt (Ionawr 1994).**

#### **4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

**Yr Aelod Lleol** – Wedi ei alw i mewn i'r Pwyllgor Cynllunio ar sail dyluniad ac effaith ar yr amgylchedd.

**Cyngor Cymuned** – Gwrthod

**Priffyrdd** – Mae'r Cynllun Rheoli Trafnidiaeth "TMP" yn foddhaol ac yn hysbysiad cynghori o safbwynt arolwg o'r briffordd gyhoeddus cyn cychwyn y datblygiad.

**Hawliau Tramwy Cyhoeddus** – Ni ddylai'r datblygiad arfaethedig gael unrhyw effaith ar hawliau tramwy cyhoeddus.

**Draenio** – Dylai'r ymgeisydd sicrhau na fydd unrhyw systemau draenio tir yn cael eu cau o ganlyniad i'r datblygiad.

**Asiantaeth yr Amgylchedd** – Mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno adroddiad acwstig ac yn seiliedig ar y lefelau hyn a ragwelir, ystyrir bod amod cynllunio yn rhesymol.

**Ymgynghorydd Amgylcheddol** – Dim gwrthwynebiadau

**Cyngor Cefn Gwlad Cymru** – Dim gwrthwynebiadau.

**Y Weinyddiaeth Amddiffyn** – Caniatad amodol.

**Arqive** – Dim gwrthwynebiad

**Dwr Cymru** – Dim sylwadau wedi eu derbyn.

**Asiantaeth yr Amgylchedd** – Risg amgylcheddol isel.

**Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd** - Er bod yna debygrwydd da bod gweddillion oes efydd a chanoloesol yn yr ardal, mae maint y gwaith ar gyfer y cynllun hwn yn awgrymu na fyddai briff gwylio ond o werth cyfyngedig. Nid wyf felly yn argymhell unrhyw asesiadau archeolegol na lliniaru mewn cysylltiad â'r cynllun hwn.

#### **Ymateb i Gyhoeddusrwydd**

Derbyniwyd 33 o wrthwynebiadau fel a ganlyn:

- Amwynder gweledol
- Technoleg heb ei phrofi
- Sŵn
- Un awdur yn dweud eu bod yn dioddef o tinitws
- Os caiff cynllun ei gymeradwyo fe ddylid ei leoli ym mhen pellaf y cae.
- Mae'r tyrbin dros yr uchder sy'n dderbyniol ar gyfer meicro-gynhyrchu.
- Byddai'r tyrbin wedi ei leoli 156m oddi wrth yr eiddo agosaf.
- Trwy fod y tyrbin wedi ei leoli y tu ôl i grŵp llinellog o dai, byddai'r tyrbin i'w weld o bob tŷ a byddai'n cael effaith annerbyniol ar fwynderau preswyl a gweledol yr eiddo hynny.

- Mae trigolion Rhosybol eisoes yn byw yn agos at fferm wynt Trysglwyn sydd 1.5km i ffwrdd.
- O safbwynt y ZTV a llefydd edrych ar y cais uchod, rydym yn teimlo'n gryf bod angen i'r mannau edrych gynnwys rhai sydd yn nes i'r tyrbîn arfaethedig. Gan y byddai'r cais hwn yn agos iawn at eiddo cymdogion, byddem yn awgrymu dau lecyn edrych arall ar hyd y ffordd rhwng Man Edrych 2 a Man Edrych 4.
- Byddem hefyd yn gofyn am i nodyn gael ei wneud yn yr adroddiad i'r Pwyllgor yn dweud ein bod yn deall nas gellir cael mannau edrych fel arfer ond o eiddo cyhoeddus, yn ddelfrydol fe ddylai'r mannau edrych hyn fod o gefn yr eiddo i roi pictiwr gwirioneddol. Os oedd yr ymgeisydd yn ddigon pryderus ynglŷn â'r effaith ar ei gymdogion sydd wedi gwrthwynebu, fe allai ofyn am eu caniatâd i wneud hyn.
- Mae'r tyrbîn dros yr uchder a ddiffinnir yn y drafft newydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar o'r CCA ar gyfer meicro-gynhyrchu domestig o 11m, a'r maint a ganiateir ar gyfer datblygiadau a ganiateir.
- Mae'r CCA newydd yn dweud y dylai tyrbînau dros 20 metr o uchder fod 500 metrau o eiddo preswyl.

Cafwyd un llythyr yn cefnogi ar y seiliau canlynol:

- Datblygiad graddfa fechan fydd hwn yn cynhyrchu 11kw ac o faint safonol sy'n dderbyniol i'r math hwn o gynnig.
- Deallir y bydd y tyrbîn hwn ar gyfer defnydd personol y fferm yn unig.

## 5. Hanes Cynllunio Perthnasol

**44C293A/SCR** - Barn sgrinio i godi un twrbîn gwynt gydag uchafswm uchder hwb o 15.4, diamedr rotor o hyd at 8 metr ac uchafswm uchder i flaen y llafn o hyd at 19.4m. Dim angen EIA 14.02.12

**44C293B/SCR** - Barn sgrinio i godi un twrbîn gwynt gydag uchafswm uchder hwb o 15.4, diamedr rotor o hyd at 8 metr ac uchafswm uchder i flaen y llafn o hyd at 19.4m. Dim angen EIA 16.10.12, a chyflwynwyd y farn sgrinio wedi i'r ymgeisydd newid lleoliad y tyrbîn yn ystod gwneud penderfyniad ar y cais cynllunio.

## 6. Prif Ystyriaethau Cynllunio

### Egwyddor datblygu

Noda Polisi C7 Cynllun Fframwaith Gwynedd:

“Bydd rhagdybiaeth o blaid prosiectau gydag ynni y gellir ei adnewyddu, ar yr amod fod yr effaith ar yr ardal yn dderbyniol i'r awdurdod cynllunio lleol. lle bo hynny'n briodol, dylid cefnogi'r cynigion gan asesiad o'r effaith ar yr amgylchedd.”

Noda Polisi 45 Cynllun Lleol Ynys Môn:

“Bydd caniatâd yn cael ei roddi i brosiectau ynni adnewyddol pan fo modd dangos yn glir na chânt effaith annerbyniol ar :- i. Gymeriad y tirwedd. ii. Safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol neu leol o safbwynt diogelu natur. iii. Rhywogaethau pwysig o safbwynt diogelu natur. iv. Safleoedd a henebion hanesyddol o bwys. v. Safon y pleserau y mae preswylwyr ac ymwelwyr yn eu mwynhau. vi. Systemau cysylltu hanfodol a gwasanaethau cyhoeddus hanfodol.”

Noda Polisi 8B- Datblygiadau Ynni Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd:

“Caniateir ceisiadau ar gyfer datblygu adnoddau ynni adnewyddadwy ac adnewyddadwy lle y gellir dangos na fydd unrhyw effaith andwyol annerbyniol ar yr amgylchedd. Rhoddir y flaneoriaeth i ddatblygu ffynonellau ynni glân ac admewuddadwy, ond gellir caniatáu cynigion ar gyfer prosiectau ynni anadnewyddadwy os byddant yn hyrwyddo manteisio i'r eithaf ar effeithlonrwydd ynni yn eu cynllun.”

Mae Polisi EP18 (Ynni Adnewyddadwy) o Gynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd yn datgan bydd prosiectau ynni adnewyddadwy yn cael eu caniatáu lle gellir yn glir gellir dangos na fydd unrhyw effaith andwyol sylweddol ar y meini prawf a restrir.

Mae Adran 12.8 (Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel) Polisi Cynllunio Cymru (4ydd Argraffiad Chwefror 2011) yn rhoi cefnogaeth gref i brosiectau ynni adnewyddadwy yn unol â Datganiad Polisi Ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010),

Paragraff 12.8.1 sy'n datgan:

“...Mae'n esbonio ein nod o fod mewn sefyllfa, erbyn 2050, lle y gellir diwallu bron y cyfan o'n hanghenion ynni lleol drwy drydan o ffynonellau carbon isel. Gwnawn hyn drwy leihau defnydd ynni a gwella effeithlonrwydd ynni ar bob graddfa ledled Cymru...”

Noda Paragraff 12.8.2:

“...Dylai polisïau cynllunio ar bob lefel hwyluso cyflawni Datganiad Polisi Ynni cyffredinol Llywodraeth y Cynulliad, a thargedau'r DU ac Ewrop ar ynni adnewyddadwy...”

Mae Adran 12.10.1 a atgynhyrchir isod yn tynnu sylw at faterion y dylai'r awdurdod cynllunio lleol eu hystyried wrth ymdrin â datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel a seilwaith cysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys agweddau cadarnhaol megis cyfrannu at gwrdd â thargedau cenedlaethol, y DU ac Ewropeaidd, ac yn ehangach buddiannau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Mae hefyd yn amlygu'r angen i ystyried yr effaith ar y dreftadaeth naturiol, yr arfordir a'r amgylchedd hanesyddol a'r angen i leihau'r effeithiau ar gymunedau lleol. Amlygir materion eraill hefyd o fewn yr adran hon, megis lliniaru a materion seilwaith h.y. y cysylltiad â'r grid a'r rhwydwaith cludiant, fel a ganlyn:

*12.10.1 Wrth benderfynu ar geisiadau am ddatblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel a seilwaith cysylltiedig, dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried:*

- *cyfraniad y cynnig at fodloni targedau a'r potensial a bennwyd yn genedlaethol<sup>32</sup>, a chan y DU ac Ewrop, ar gyfer ynni adnewyddadwy, gan gynnwys y cyfraniad at dorri allyriadau nwyon tyf gwydr;*
- *y manteision a'r cyfleoedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ehangach yn sgil datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel;*
- *yr effaith ar y dreftadaeth naturiol (gweler Adran 5.5), yr arfordir (gweler Adran 5.6) a'r amgylchedd hanesyddol (gweler Adran 6.5);*
- *yr angen i leihau'r effeithiau ar gymunedau lleol er mwyn diogelu ansawdd bywyd cenedlaethau heddiw ac yfory;*
- *ffyrdd o osgoi neu liniaru effeithiau andwyol a nodwyd, neu i wneud yn iawn amdanynt; effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar leoliad a dyluniad datblygiad ynni adnewyddadwy a charbon isel, y modd y caiff ei adeiladu a'r modd y caiff ei weithredu. Wrth wneud hynny, dylai ystyried a ydy'r mesurau i ymaddasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn arwain at*
- *effeithiau eraill (gweler 4.2);*
- *materion sy'n ymwneud â'r cysylltiad â'r grid, pan gynigir datblygiadau ynni adnewyddadwy (trydan);*
- *gallu'r seilwaith trafniadaeth, a'r effeithiau arno, yn gysylltiedig ag adeiladu neu weithredu'r cynnig.*

Noda paragraff 12.8.13 y bydd yr effeithiau o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy a seilwaith cysylltiedig yn amrywio gan ddibynnu ar eu math, lleoliad a graddfa. Mae hyn angen polisi ac ystyriaethau rheoli datblygu gwahanol. Ceir tabl yn Ffigur 12.3 (Graddfeydd ynni adnewyddadwy ac isel i ddibenion cynllunio). Ar 50kW mae'r tyrbîn sy'n destun yr adroddiad hwn ar y trothwy rhwng datblygiad Is Awdurdod Lleol a datblygiad Micro.

Mae Nodyn Cyngor Technegol 8 Ynni Adnewyddadwy (2005) (paragraff 14) yn datgan fod gan Lywodraeth y Cynulliad darged o 4TWh o drydan y flwyddyn i gael ei gynhyrchu o ynni adnewyddadwy erbyn 2010 a 7TWh erbyn 2020. Er mwyn cyrraedd y targedau hyn, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dod i'r casgliad bod angen 800MW o gapasiti gosodedig ychwanegol o ffynonellau gwynt ar y tir.

Mae paragraff 2.12 o TAN 8 yn nodi fod Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i awdurdodau cynllunio lleol annog, drwy eu polisïau cynllun datblygu ac wrth ystyried ceisiadau cynllunio unigol, cynlluniau ffermydd

gwynt cymunedol llai (yn gyffredinol yn llai na 5 MW). Gellir ystyried y datblygiad sy'n destun yr adroddiad hwn yn fach, ond nid yw'n gynllun cymunedol.

Noda Paragraff 2.13:

'Dylai rhan fwyaf o ardaloedd y tu allan i SSAs fod yn rhydd o gynlluniau pŵer gwynt mawr. Efallai y bydd awdurdodau cynllunio lleol yn dymuno ystyried effaith gronpus cynlluniau bach mewn ardaloedd y tu allan i'r Ardal Chwilio Strategol a sefydlu meini prawf addas ar gyfer pellteroedd gwahanu oddi wrth ei gilydd ac oddi wrth perimedr cynlluniau ynni gwynt presennol neu yr Ardaloedd Chwilio Strategol. ' Mae Adran 2 Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy yn cynnwys y canllawiau canlynol:

"2.1.1 Mae gan y system gynllunio rôl allweddol i'w chwarae wrth gefnogi cyflenwad cymunedau gwledig cynaliadwy. Gall helpu sicrhau y cyflawnir datblygiadau priodol yn y man cywir ar yr adeg gywir drwy sicrhau bod digon o dir ar gael i ddarparu cartrefi a chyfleoedd gwaith i bobl leol, gan helpu cynnal gwasanaethau gwledig. Ar yr un pryd, rhaid i'r system gynllunio ymateb i'r heriau sy'n codi yn sgil newid yn yr hinsawdd, er enghraifft drwy gynnwys yr angen i gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Rhaid iddo hefyd warchod a gwella'r amgylchedd naturiol a hanesyddol a diogelu cefn gwlad a mannau agored. Nod cyffredinol y system gynllunio yw cefnogi cymunedau gwledig sy'n fyw ac yn gweithio er mwyn iddynt fod yn gynaliadwy yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol. Dylai awdurdodau cynllunio geisio cryfhau cymunedau gwledig, drwy helpu i sicrhau bod modd i'w trigolion presennol weithio a defnyddio gwasanaethau yn lleol, gan ddefnyddio dulliau teithio carbon isel a chael cyfran uwch o'u hynni o ffynonellau adnewyddadwy lleol."

Yng nghyswllt arallgyfeirio ar ffermydd mae Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy yn cynnwys y canllawiau canlynol:

"3.7.2 Mae'n bosibl lleoli nifer o weithgareddau economaidd yn gynaliadwy ar ffermydd. Mae gweithrediadau bach ar y fferm, megis prosesu bwyd a choed a pheycynnu bwyd, ynghyd â gwasanaethau (e.e. swyddfeydd, gweithdai, llogi a chynnal a chadw offer), gwasanaethau chwaraeon a hamdden, cynhyrchu cynydu heblaw am fwyd a chynhyrchu ynni adnewyddadwy i gyd yn debygol o fod yn ddefnyddiau priodol."

Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol: 'Datblygiadau Ynni Gwynt' (1994) a fabwysiadwyd gan y cyngor yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau tyrbinau gwynt. Fodd bynnag, oherwydd oed y ddogfen, mae yn y broses o gael ei disodli gan fersiwn wedi'i diweddarau o'r enw 'Ynni Gwynt ar y Tir', sydd ar hyn o bryd yn yr 2il gyfnod ôl-ymgyngorol, a dim ond ychydig o bwysau y gellir ei briodoli iddi.

Mae'r polisïau a restrir uchod yn rhoi rhagdybiaeth o blaid datblygiadau ynni adnewyddadwy yn amodol ar ystyriaethau manwl. Bydd yr effeithiau o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy hefyd yn amrywio gan ddibynnu ar eu lleoliad a graddfa, ac mae angen polisi ac ystyriaethau rheoli datblygu gwahanol. Ar 50kW mae'r tyrbîn sy'n destun yr adroddiad hwn ar y trothwy rhwng datblygiad Is Awdurdod Lleol a datblygiad Micro. Ystyrir bod egwyddor y datblygiad yn dderbyniol yn amodol ar yr ystyriaethau manwl isod.

### **Tirwedd ac Effaith Weledol**

Byddai'r cais mewn Ardal a ddynodir fel Ardal Tirwedd Arbennig dan ddarpariaethau polisi 31 Cynllun Lleol Ynys Môn, D3 Cynllun Fframwaith Gwynedd ac EN1 Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd.

Mae'r tyrbîn arfaethedig wedi ei leoli tua 4.5 cilometr o AHNE. Nid yw'r effaith yn debygol o fod yn un sylweddol ar yr ardal hon a ddiogelir oherwydd maint bychan y datblygiad.

Byddai'r tyrbîn arfaethedig i'w weld o nifer o safleoedd a byddai'n nodwedd amlwg yn y dirwedd leol. Byddai ei arwyddocâd yn cael ei leihau gan faint bychan y tyrbîn, y topograffi lleol, sgrinio naturiol ac adeiledig a phresenoldeb seilwaith ynni arall, gyda'r run ohonynt i'w weld yn dominyddu, ar wahân i'r



golygfeydd o'r llwybr troed agosaf. Nid oes unrhyw effaith sylweddol ar dderbynyddion sensitif fel yr AHNE a Mynydd Parys na thref Amlwch a phentref Rhosybol.

## **Amwynder Preswyl**

Mae nifer o'r llythyrau sy'n gwrthwynebu yn gwneud hynny ar sail ei agosrwydd i'r eiddo preswyl agosaf. Roedd y llythyrau'n dweud y byddai lleoli'r tyrbîn y tu ôl i grŵp llinelllog o dai yn golygu y byddai'r tyrbîn yn cael effaith annerbyniol ar fwynderau preswyl a gweledol yr eiddo hynny.

Mae Atodiad D TAN 8 yn rhestru'r ffactorau y dylid fel arfer eu hadolygu i ganfod 'ardaloedd sy'n dechnegol ddichonadwy' ar gyfer datblygu cynlluniau ynni gwynt ar y tir. Ym mharagraff 3.4, nodir 'ar hyn o bryd mae 500m yn cael ei ystyried yn bellter gwahanu nodweddiadol rhwng tyrbîn gwynt ac eiddo preswyl er mwyn osgoi effeithiau sŵn annerbyniol, fodd bynnag, pan gaiff ei ddefnyddio mewn modd anhyblyg gall arwain at ganlyniadau ceidwadol ac felly cyngorir rhywfaint o hyblygrwydd"

Mae Canllawiau Cynllunio Atodol Ynni Gwynt (1994) 'CCA' y Cyngor yn nodi y bydd y cyngor yn rhoi ystyriaeth ffafriol i brosiectau ynni adnewyddadwy yn yr achosion hynny lle y gellir dangos yn glir na fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar yr ystyriaethau rhestredig sy'n cynnwys 'safon y mwynderau a fwynheir gan y boblogaeth breswyl a thwristiaid'. O dan 7.3 'Diogelwch y Cyhoedd, Fflachiadau Cysgodion, Ymyrraeth Weledol ac Effaith ar Ddiogelwch y Briffordd' mae'r 'CCA' yn cynnwys safon a argymhellir na fydd unrhyw dyrbin yn cael ei osod yn nes na 400 metr at y tŷ annedd agosaf, gydag eithriad posibl anheddau a feddiannir gan y perchnogion tir lle bwriedir lleoli'r tyrbînau.

Fel y nodwyd yn flaenorol yn yr adroddiad, ychydig o bwysau y gellir ei briodoli i'r CCA drafft sydd wrthi'n cael ei baratoi gan y cyngor.

Mae'r cais yn cynnwys asesiad o'r effeithiau ar fwynderau preswyl eiddo cyfagos. Mae'r tyrbîn arfaethedig oddeutu 174 metr o'r eiddo preswyl agosaf neu 154 metr at bwynt agosaf yr ardd. Mae swyddogion wedi asesu'r effaith ar amwynder gweledol eiddo preswyl cyfagos. Ar sail maint y tyrbîn arfaethedig a phellteroedd o'r anheddau hyn, ni ystyrir bod mwynderau gweledol y preswylwyr yn cael ei effeithio i raddau annerbyniol.

Mae Atodiad C Polisi Cynllunio Cymru yn rhoi cyngor ar Fflachiadau Cysgod a Golau a Adlewyrchir. Gwelir nad yw fflachiadau cysgodion ond yn digwydd mewn adeiladau sydd hyd at 10 diamedr rotor oddi wrth dyrbin ac o fewn 130 gradd ar naill ochr ogleddol y lledredau hyn yn y DU. Nid oes unrhyw eiddo preswyl o fewn yr ardal hon yn yr achos hwn ac ni ddisgwylir y bydd niwsans fflachiadau cysgodion yn digwydd o fewn unrhyw eiddo preswyl o ganlyniad i'r datblygiad, ond mae amod wedi ei argymhell.

Aiff Atodiad C ymlaen i nodi fod y gall tyrbînau hefyd achosi fflachiadau o olau adlewyrchol, a all fod yn weladwy o gryn bellter. Noda'r canllawiau y gellir lliniaru golau adlewyrchol trwy ddewis lliw llafn priodol, ac mae amod wedi cael ei argymhell ynglŷn â'r lliw er mwyn lliniaru'r effeithiau.

Mae'r cais hefyd wedi cael ei asesu gan Adain Gwasanaethau Amgylcheddol y cyngor ac nid ydynt yn ystyried y bydd y datblygiad yn cael effaith annerbyniol o ran sŵn, ond gyda'r amodau a argymhellwyd.

## **7. Casgliad**

Mae'r Polisiâu Cynllunio a restrir yn yr adroddiad yn darparu tybiaeth o blaid datblygiadau ynni adnewyddol yn amodol ar ystyriaethau manwl. Mae'r twrbîn hwn sydd yn un 11KW yn cael ei gyfrif fel datblygiad meicro sydd i bob pwrpas yn gwasanaethu'r uned fferm. O ran ystyriaethau manwl yn benodol yr effaith ar y tirwedd ac amwynderau preswyl mae'r cynnig yn cael ei ystyried yn dderbyniol.

## 8. Argymhelliad

Bod caniatâd cynllunio'n cael ei roi gyda'r amodau a ganlyn:

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: Er mwyn cydymffurfio gyda gofynion Adran 91(1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Mae caniatâd cynllunio am gyfnod na fydd yn fwy na'r 25 mlynedd ("y cyfnod 25 mlynedd") o'r dyddiad y caiff y datblygiad ei gysylltu gyntaf i'r grid trydan ("y grid"). Rhaid rhoi rhybudd o ddyddiadau (a) cysylltu am y tro cyntaf i'r grid a (b) gweithrediad llawn y tyrbîn yn ysgrifenedig i'r awdurdod cynllunio lleol o fewn 28 diwrnod i'r ddau beth hyn ddigwydd.**

Rheswm: Fel y gall yr Awdurdod Cynllunio Lleol adolygu'r sefyllfa yng ngoleuni'r amgylchiadau fydd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod.

**(03) Ni chaniateir i'r tyrbîn a ganiateir yma fod yn fwy na:**

19.4 metr	Uchafswm uchder llafn* (*i ben fertigol uchaf llafn fydd yn sownd)
15.4 metr	Uchafswm uchder hwb
8 metr	Uchafswm diamedr rotor
11 kw	Uchafswm graddfa pŵer

Ni chaniateir gosod unrhyw dyrbin gwynt ar y safle hyd nes y bydd manylion am y gwneuthuriad, model, dyluniad, maint, lleoliad transformer, graddfa bŵer, lefelau sŵn, gorffeniad a lliw allanol y tyrbînau arfaethedig wedi eu cyflwyno yn ysgrifenedig ac wedi derbyn caniatâd ysgrifenedig yr awdurdod cynllunio lleol. Rhaid i lafnau'r tyrbîn droi i'r un cyfeiriad. Rhaid i'r datblygiad gael ei weithredu wedi hynny yn hollol unol â'r manylion fydd wedi'u cymeradwyo.

Rheswm: Er mwyn diffinio sgôp y caniatâd hwn o ystyried effaith y datblygiad fel y'i haseswyd.

**(04) Ar ddiwedd y cyfnod 25 mlynedd, rhaid dadgomisiynu'r tyrbîn a rhaid i'r holl strwythurau perthynol sydd uwchben y ddaear gael eu symud oddi ar y safle. Ddeuddeng mis cyn dadgomisiynu'r tyrbîn, rhaid cyflwyno cynllun ysgrifenedig ar gyfer ailadrodd y safle ("y cynllun dadgomisiynu" ) i'r awdurdod cynllunio lleol am ei ganiatâd ysgrifenedig. Rhaid i'r cynllun dadgomisiynu wneud darpariaeth i symud y tyrbîn gwynt a'u hoffer ategol cysylltiol i ddyfnder o 1m o leiaf o dan y ddaear. Rhaid i'r holl waith dadgomisiynu ac adfer cael ei wneud yn hollol unol â'r cynllun dadgomisiynu fydd wedi'i gymeradwyo ac yn unol â'r amserlen ynddo.**

Rheswm: Er mwyn sicrhau edrychiad boddhaol ar ddiwedd y datblygiad.

**(05) Os bydd y tyrbîn gwynt a ganiateir yma yn methu cynhyrchu trydan i'w gyflenwi i'r grid am gyfnod parhaol o 12 mis rhaid i'r tyrbîn gwynt a'i offer ategol cysylltiol gael ei symud i ffwrdd i ddyfnder o 1m o leiaf o dan y ddaear a'i symud oddi ar y safle gyda'r tir yn cael ei ailosod o fewn cyfnod 6 mis o ddiwedd y cyfnod hwnnw o 12 mis yn unol â chynllun ("y cynllun symud") fydd**

wedi'i gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol ac wedi derbyn ei ganiatad ysgrifenedig cyn dechrau'r datblygiad. Rhaid i'r datblygwr ddarparu data gweithredol ysgrifenedig ar gyfer tyrbinau unigol i'r awdurdod cynllunio lleol pan wneir cais ysgrifenedig rhesymol.

Rheswm: Er budd mwynderau'r ardal.

**(06) O fewn 12 mis i'r "comisiynu" ac ar gais ysgrifenedig yr awdurdod cynllunio lleol, yn cynnwys unrhyw gyfnodau amser a osodir yn y cais; rhaid cyflwyno cynllun ysgrifenedig i liniaru unrhyw achosion o fflachiadau cysgodion yn unrhyw eiddo a effeithir yn cynnwys amserlen ("y cynllun lliniaru") i'r awdurdod cynllunio lleol a derbyn ei ganiatâd ysgrifenedig. Rhaid i weithrediad y datblygiad ganlyn ymlaen wedi hynny yn hollol unol â'r "cynllun lliniaru".**

Rheswm: I ddiogelu mwynderau deiliaid yr eiddo cyfagos.

**(07) Rhaid i'r holl geblau mewn cysylltiad â'r datblygiad a ganiateir trwy hyn fod wedi'u gosod o dan y ddaear (oni bai cymeradwywyd yn ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol).**

Rheswm: Er lles mwynderau.

**(08) Ni chaniateir dechrau'r datblygiad hyd nes y bo'r canlynol wedi'u cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol ac wedi derbyn ei ganiatâd ysgrifenedig.**

- 1) Y dyddiad y bydd y gwaith adeiladu'n dechrau ac yn dod i ben.
- 2) Hyd ymestyn mwyaf unrhyw offer adeiladu
- 3) Hydred a lledred pob tyrbîn.

**Rhaid gwneud y datblygiad wedi hynny yn hollol unol â'r manylion a gymeradwywyd o dan ddarpariaethau'r amod hwn.**

Rheswm: Er mwyn sicrhau bod awyrennau militeraidd yn osgoi'r ardal ac yn osgoi'r perygl o wrthdrawiad.

**(09) Ni chaniateir gosod unrhyw dyrbin gwynt ar y safle hyd nes y bydd cadarnhad o'r canlynol wedi'u cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol ac wedi derbyn ei ganiatâd ysgrifenedig:**

1) Dim ond person cymwys gaiff osod y tyrbîn a hynny'n unol â chyfarwyddyd y gwneuthurwyr a'r arolwg wnaed o'r safle.

2) Rhaid cynnal a chadw'r tyrbîn yn unol ag argymhellion y gwneuthurwyr.

3) Ni chaniateir i'r sŵn cronol o'r tyrbîn gwynt, wedi'u mesur 3.5m o wyneb unrhyw eiddo cyfagos gyda rhywun yn byw ynddo a heb fod ym mherchnogaeth yr ymgeisydd, fod yn fwy na 35dB LA90 (10 munud) hyd at gyflymder gwynt o 9m/s ar uchder yr hwb. Lle bo rhan o unrhyw eiddo cyfagos sydd yn sensitif i sŵn yn uwch na lefel y ddaear, rhaid i'r lleoliad monitro fod 1m oddi wrth y talcen a chywiriad talcen o -3dB(A) yn cael ei weithredu.

4) Ni chaniateir i'r tyrbîn gwynt fod yn rhai tonaidd o ran cymeriad.

**(10) Rhaid i'r datblygiad fynd yn ei flaen wedi hynny yn hollol unol â'r manylion fydd wedi'u cymeradwyo.**

Rheswm: Er lles mwynderau deiliaid yr eiddo cyfagos.

**(11) Rhaid adeiladu'r datblygiad a ganiateir yma yn hollol unol â "Darparu ac Adeiladu Tyrbin Gwynt yn Bryntirion Rhosybol – 44C293" dderbyniwyd 10.10.12**

Rheswm : I leihau y perygl a'r anghyfleustra i ddefnyddwyr y briffordd.

**(12) Rhaid lleoli'r datblygiad a ganiateir yma yn unol â'r cynllun lleoliad (1:5,000) SH 41905 88504.**

Rheswm : I osgoi unrhyw amheuaeth ac i sicrhau ffurf foddhaol o ddatblygiad.

**Hysbysiadau Cyngori**

Cynghorir yr ymgeisydd i gysylltu â Colin Edwards (Prif Beiriannydd) ar 01248 752350 i drafod y gofynion arolwg o gyflwr y rhwydwaith priffyrdd cyn cychwyn ar unrhyw ddatblygiad ar y safle. Bydd yr arolwg yn ddefnyddiol ar gyfer pob parti i ddarparu cofnod o gyflwr y briffordd gyhoeddus cyn cwblhau'r datblygiad.

**9. Polisiau Perthnsaol Eraill**

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

FF11 (Traffig)

**Cynllun Lleol Ynys Môn**

1 (Polisi Cyffredinol)

**Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd**

GP1 (Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu)

EN4 (Bioamrywiaeth)

Nodyn Cyngor Technegol 5 Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009)

Nodyn Cyngor Technegol 11 Sŵn (1997)